# Y DINESYDD

Mawrth 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 476 £1.20




# Y DINESYDD

RHIF. 1 EBRILL 1973

## Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

### CANT OED



**Clawr Y Dinesydd cyntaf un**

**Ebrill 1973**

**Rhifyn Dathlu 50 mis Ebrill**

**tud. 2, 7 a 23**

**Tîm Ieuenctid Clwb Cymric**

**tud. 15**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Sian Parry-Jones**

***Golygydd Ebrill***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn **27 Mawrth** at:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 2031 1340

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

# *Y Dinesydd* yn dathlu'r 50

**Rhifyn dathlu'r 50 ym mis Ebrill**


Y DINESYDD

RHIF. 1 EBRILL 1973

Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

CANT OED

Mis nesa bydd *Y Dinesydd* yn dathu'r 50.

Rydw i'n ffyddiog y bydd ein rhifyn dathlu yn swmpus ac yn llawn diddordeb i nifer ohonoch. Bydd nifer o'n colofnwyr yn rhoi sylw i'r garreg filltir hanesyddol o gyrraedd hanner cant oed. Mae'r pedwar cyn-gadeirydd ers rhifyn dathlu'r 25 yn 1998 wedi cytuno i hel atgofion: E Wyn James, Peter Gillard, Gwilym Roberts a Bryan James a soniais eisoes am gyfraniad Norman Williams y golygydd cyntaf. Mae tri enw cyfarwydd hefyd wedi addo anfon gair – edrychwn ymlaen i ddarllen cyfraniadau Eiry Palfrey, Beti George ac a fydd Rhian Williams yn datgelu cyfrinachau wrth iddi osod croesair misol ers bron chwarter canrif!

Gobeithio hefyd daw gair o gyfeiriad Elin (siop Caban) a Mari Emlyn – mae'n debyg eu bod yn cofio eu mam Shan Emlyn yn llenwi bwrdd y gegin â phapurau nôl yn negawdau olaf yr hen ganrif!

Bydd croeso afraid dweud i'r beirdd ac mae Aron Pritchard (Pobol y Rhigwm) eisoes wedi ysgrifennu englyn dathlu – diolch iddo.

Oes angen dathliadau cymdeithasol i ddathlu'r 50? Oes syniadau gyda chi – rhowch wybod os gwelwch yn dda. Fel y gwyddoch mae'r *Dinesydd* ar Drydar ers 2018 – ewch yno a mynegwch eich syniadau mewn brawddegau byrion a difyr!

*Gwilym Dafydd (Cydlynydd Y Dinesydd Dathlu'r 50)*

Gol: Tra'n disgwyl am y rhifyn nesaf, beth am roi cynnig ar Gwis Dinesydd 50 ar dudalen 23 i weld faint ydych chi'n cofio am *Y Dinesydd* dros yr hanner canrif diwethaf?

# Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Bydd hi'n Basg chwap"*

Diolch byth mae'r Gaeaf yn dirwyn i ben ac arwyddion bod y Gwanwyn yn y tir sy'n mynd i godi'n calonnau i gyd. Diau, buodd llawer ohonoch yn dathlu Gŵyl Ddewi i fynegi eich balchder o berthyn i'r genedl hon. Eisoes cynhaliwyd Rali dan nawdd Cymdeithas yr Iaith yng Nghaerfyrddin yn Ionawr i ddangos cefnogaeth i'r iaith wedi cyhoeddi canlyniad y Cyfrifiad odd yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac yn arbennig yn Sir Gaerfyrddin. Yna, ar y 21 o Fai mae Mudiad Yes Cymru yn trefnu gorymdaith yn Abertawe wedi gorymdeithiau hynod o lwyddiannus y llynedd yn Wrecsam a Chaerdydd.

Ers y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* dan ni wedi gweld colli dau berson adnabyddus yn eu gwahanol feysydd. Cyfeirio ydw i at golli Aled Glynne Davies cyn olygydd Radio Cymru odd yn fawr ei barch ym myd y cyfryngau a Clive Betts y newyddiadurwr a fuodd am flynyddoedd yn sylwebu ar y byd gwleidyddol yng Nghymru. Odd e'n enedigol o Southampton ond cafodd ei fagu yn Llundain cyn dod i Gymru i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae hen edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ger Pwllheli yn yr haf ond eisoes mae pobl Rhondda Cynon Taf wedi dechrau paratoi'r croeso i'r Eisteddfod yn 2024. Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ydy Helen Prosser o Donyrefail sy'n dysgu yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac Andrew White o Lanharan Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac yntau yn Gyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Iolo Roberts sy'n gweithio fel newyddiadurwr gyda'r BBC yng Nghaerdydd yn Gadeirydd y Gronfa Leol.

Yn fy ngholofn y mis diwethaf soniais am fwriad Cyngor Sir Fynwy i sefydlu egin Ysgol Gymraeg yn nhre Trefynwy ym Medi ac mae rhagor o newyddion da gen i i'w hadrodd y tro hwn hefyd gan fod Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr wedi datgan eu bwriad i sefydlu Ysgol Gymraeg yn nhre glan môr Porthcawl.

Yn ddiweddar sefydlwyd Cronfa Goffa Syr Geraint Evans y canwr enwog gynt o Gilfynydd ger Pontypridd i nodi canmlwyddiant ei enedigaeth. Bydd y Gronfa yn werth £150,000 ac yn gallu cefnogi un myfyriwr yn flynyddol yn Ysgol Opera Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Caerdydd am y deng mlynedd nesa. Eisoes dyfarnwyd yr ysgoloriaeth gyntaf i Edward Kim, baritôn o Dde Corea.

Dros y blynyddoedd mae Llywodraeth Cymru wedi bod dan y lach am brynu Maes Awyr Caerdydd yn y Rhws yn y Fro yn arbennig gan fod y lle yn colli arian hefo llawer o deithwyr posibl yn dewis hedfan o Fryste yn lle Caerdydd. Mae'r beirniaid yn awgrymu dylir ad-leoli'r maes awyr i rywle mwy canolog fel ardal Casnewydd a fyddai'n denu mwy o deithwyr posibl. Yn bersonol o'n i wrth fy modd yn teithio o Gaerdydd pan on i ar fy ffordd i'r Wladfa a hynny hefo Cwmni KLM odd yn hedfan i Amsterdam ac oddi yno i Buenos Aires â'r daith yn hwylus dros ben ac yn arbed siwrnai ar hyd yr M4 pe bawn i wedi hedfan o Heathrow.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd wedi trefnu datblygu'r ardal o gwmpas Churchill Way ynghanol y ddinas ac eisoes mae'r gwaith wedi dechrau gyda chodi'r gorchudd ar y "Feeder" dros yr heol yn Churchill Way a grewyd 180 o flynyddoedd yn ôl i ychwanegu dŵr ar gyfer y gamlas a redai o Ferthyr i ddociau Caerdydd. Pan on i'n blentyn odd y "Feeder" yn dal heb orchudd a chofiaf bob bore Sadwrn byddai criw ohonom yn cerdded ar hyd ochrau'r "Feeder" i fynd i nofio yn yr hen bwll yn Guildford Crescent. Yn ôl y cynllun bwriedir creu parc a lle i bobl hamddena yn yr ardal. Mae dinasoedd yn Lloegr megis Manceinion a Birmingham eisoes wedi datblygu ardaloedd tebyg o gwmpas eu camlesi. Edrychaf ymlaen at weld cwblhau'r cynllun o gwmpas Churchill Way. Bydd yn sicr o ychwanegu at ddenu pobl i ganol y ddinas ac yn gyfle i hamddena ynghanol bwrlwm y lle.

Mae'r daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria wedi dwyn sylw'r byd gan fod y dinistr a'r sefyllfa mor frawychus hefo ymhell dros 40,000 wedi eu lladd a miloedd ar filoedd yn ddigartre a heb obaith. Mae'r trychineb hwn wedi dwyn sylw oddi ar y rhyfel yn Wcrain sy'n parhau â Putin yr un mor benderfynol o orchfygu'r wlad doed a ddelo. Un o'i esgusion tila i ymosod ar yr Wcráin odd ei fod yn amddiffyn hawliau siaradwyr Rwseg yn y Donbas a dwyrain Wcráin ond lol potais maip ydy hyn gan mewn cyfrifiad yn yr Wrcráin nôl yn 2007 dim ond 5.506 y cant o'r boblogaeth odd yn methu siarad Rwseg a hyn wrth gwrs o ganlyniad i Wcráin fod yn rhan o'r Undeb Sofietaidd nes ennill eu hannibyniaeth! Rhaid edmygu milwyr Wcráin am eu dewrder di-ildio yn amddiffyn eu gwlad ac am y boblogaeth yn gyffredinol am aros yn ffyddlon i Wcráin er gwaethaf popeth dan arweiniad ysbrydoledig eu Harlywydd Volodymyr Zelenskyy.

Bydd hi'n Basg chwap ac felly PASG HAPUS i bawb gan obeithio ceir cyfle i fwynhau ychydig o seibiant dros yr Ŵyl yn haul y Gwanwyn!

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod y mis bach, cawsom gyflwyniad tra diddorol i waith yr artist gwydr o ardal Aberystwyth, Ruth Shelley. Astudiodd Decstilau yng Ngholeg Celf Caerfyrddin ac yna symud i Gaerdydd a sefydlu busnes gwau. Ond, pan ymunodd ar hap â chwrs gwneud gwydr, sylweddolodd mai dyma oedd ei galwad, ac mae ei gyrfa dra llwyddiannus yn dyst i'w doniau yn y maes hwn.

Yn ei stiwdio yn ei chartref yng Nghaerdydd, mae Ruth wedi arbrofi â phob math o dechnegau gwneud gwydr – defnyddir y broses gwydr oer i wneud ffenestri lliw, mae gwydr poeth yn cwmpasu'r dechneg o chwythu gwydr, ond dull dewisol Ruth yw gwydr twym sy'n caniatáu iddi gymhwyso'i diddordeb mewn tecstilau a lliwiau at y darnau mae'n eu creu.

Mae Ruth bob amser yn chwilio am ysbrydoliaeth newydd ac yn arbrofi'n barhaus. Aeth i Rajasthan i astudio'r carpedi a'r tapestrïau traddodiadol yn ardal Jaipur. Ei hantur nesaf oedd ymweld â gogledd-ddwyrain Tsieina i weld gwaith yr Uyghur, sef grŵp ethnig Twrcaidd sydd wedi ymsefydlu ar draws Dwyrain Asia.

Wrth i Ruth grwydro ardal Mwnt a Cheredigion, mae casgliadau eraill wedi ymgodi. Mae'r gyfres Helyglys Hardd yn adlewyrchu lliwiau'r blodau hynny, tra bod y darnau Cwyros yn cyfuno arlliwiau newidiol y planhigyn hwn ar hyd y tymhorau. Mae Tawelwch Mwnt yn cymysgu lliwiau'r môr â lliwiau cefn gwlad.

Mae Ruth yn arddangos yn y DU ac yn UDA ac yn gwerthu ei gwaith mewn orielau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae wedi derbyn nifer o grantiau gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer ei phrosiectau ar hyd y blynyddoedd.

Fel rhan o'i phrosiect cyffrous nesaf, bydd Ruth yn ymweld â gwledydd ar Ffordd y Sidan i chwilio am dystiolaeth o gelfyddyd Geltaidd yn y deunyddiau traddodiadol sy'n hanu o'r ardal. Gallwn edrych ymlaen at gasgliad newydd trawiadol yn sgil yn antur ddiweddaraf hon.

*Joy Davies*



***Ruth Shelley***

# Merched y Wawr Y Felin

Noson o bopcorn, bybls pefriog a ffilm!

Pleser oedd gwahodd Owenna Davies o ranbarth MYW Ceredigion draw i gyflwyno'r ffilm *Gwlân, Gwlân, Gwlana* a oedd yn benllanw cyfraniad aelodau lleol o MYW Rhanbarth Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron.

Dechreuodd y cyfan drwy ofyn i'r aelodau ddod at ei gilydd i weu sgwariau gyda'i gilydd a buan y tyfodd yn sgarff 150 medr o hyd! Y cam nesaf oedd ymgeisio am grant sylweddol gan Y Loteri Genedlaethol i greu ffilm ar y diwydiant gwlân yng Ngheredigion yn hytrach na bodloni ar berfformio cyflwyniad traddodiadol ar lwyfan yr Eisteddfod. Roedd y gerdd 'O bwyth i bwyth' gan Enfys Hatcher Davies (Cangen yr Hafod) yn rhan ganolog o'r ffilm gyda Lowri Steffan ac Anna ap Robert yn mynd ati i sgriptio a ffilmio ac aelodau lleol y rhanbarth yn cymryd rhan drwy ganu, llefaru ac actio!

Cawsom gip ar hanes y ffatrïoedd gwlân lleol sydd nawr wedi lleihau i ond un erbyn hyn, gydag esiamplau o'r dillad gwlân traddodiadol fel y clogyn, y wasgod, a sgertiau brethyn a ddaeth yn boblogaidd o'r 60'au ymlaen ac sydd erbyn heddiw yn cael eu casglu a'u cyfrif fel darnau 'vintage' casgliadwy. Roedd pawb yn wên o glust i glust wrth wylio'r ffilm, gyda phawb yn hel atgofion am y cyfnod euraidd hwn o wisgoedd a blancedi Cymreig. Diolchwyd yn fawr i Owenna gan Heulwen ein cynrychiolydd sirol a gan Glenys ein Cadeirydd.

Dyma'r gerdd gan Enfys Hatcher Davies a fu'n ysbrydoliaeth i greu'r ffilm:

**O bwyth i bwyth**

Clic, clicio mae'r nodwydd, clic clicio sy'n rhaid,
clic, clicio'r edafedd yn gywrain ddi-baid.
Gwlanen hen hanes sy'n nyddu ymhell,
traddodiad, bywoliaeth, cwmnïaeth – s'dim gwell!

Yn gwlwm ar gwlwm, yn bwyth ar ôl pwyth,
daw rhes, a rhes arall, y gwaith yn dwyn ffrwyth.
Heb gwmni, yn unig mae'r sditsh ac mor wan,
o'u clymu, cysylltu mae gan bawb eu rhan.

Cydweithio mae'r clymau, dal llaw yn gytûn,
miloedd o ddwylo'n gwehyddu yn un,
a'r llafur yn gariad, yn gysur, yn nerth –
y plethu drwy'i gilydd a rydd iddynt werth.

Y grefft, o'i throsglwyddo, sy'n camu ymlaen,
clic, clicio'r blynyddoedd yn mynd yn eu blaen,
a'r sgarff yma heddiw sy'n clymu yn dynn-
y merched, traddodiad a'n hanes fan hyn.

Da'n gilydd, o glicio, a gweithio a gwau,
a datod, cywiro'i berffeithio pob bai.
O bwyth i bwyth heddiw, clic cliciwn yn braf,
yng ngwlanen ein mudiad, mae'n 'fory ni'n saff.

# Ysgol Bro Morgannwg


Finnian, Lleucu, Gwennan a Megan

**Sgïo yn Sestriere**

Braf oedd gweld dychwelyd y daith sgïo flynyddol dan ofal yr Adran Addysg Gorfforol. Eleni, i'r Eidal y teithiodd dros wythdeg o ddisgyblion i ddysgu sgïo am wythnos. Wrth ddilyn gwersi dyddiol, gwelwyd y disgyblion yn gwneud cynnydd aruthrol – yn gorfforol ac yn feddyliol – wrth wynebu llethrau yr Alpau. Roedd y disgyblion ar eu gorau yn dangos parch tuag at eu hyfforddwyr a'u cyd-sgiwyr.

**Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt**

Llongyfarchiadau i bump o ddisgyblion yr ysgol ar dderbyn cynnig i astudio ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt ym mis Medi. Maent yn dilyn yn nhraddodiad yr ysgol o anfon disgyblion i'r Prifysgolion hyn. Mae Lleucu Wiliam, sydd ar hyn o bryd yn astudio Y Gymraeg, Ffrangeg, Llenyddiaeth Saesneg a Drama wedi'i derbyn i Goleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen i astudio 'Saesneg a'r Clasuron'. Mae Finnian Orders wedi derbyn cynnig i astudio Hanes yng Ngholeg Sidney Sussex, Prifysgol Caergrawnt. Mae Megan Darwin yn dilyn trywydd eithaf tebyg wrth dderbyn cynnig i astudio Hanes a Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Selwyn, Prifysgol Caergrawnt a Gwenan Staziker wedi derbyn cynnig i astudio archeoleg yng Ngholeg Queens', hefyd ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn ogystal, mae Sara Jones, cyn-ddisgybl a enillodd 4A* llynedd wedi derbyn cynnig i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Ar hyn o bryd, mae hi draw yn Ohio! Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt!

**Seville**

Cafwyd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10-13, sy'n astudio Sbaeneg, i fynd i ymweld a dysgu mwy am ddiwylliant Sbaen ar daith i Seville ym mis Chwefror. Dan ofal yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol, blaswyd tapas traddodiadol, ymweld â thirnodau hanesyddol ac ymweld â Phalas Alcazár a'r Torre de Oro. Wrth gwrs, roedd rhaid cael gwers flamenco hefyd! *Buen tiempo* yn wir!

# Ysgol Y Berllan Deg

**Diogelwch y We**

Ar 7fed o Chwefror, wnaethom ymuno ag ysgolion a sefydliadau ieuenctid ledled Cymru i ddathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2023. Trefnwyd nifer o weithgareddau amrywiol i godi ymwybyddiaeth ar sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel. Cafwyd nifer o sgyrsiau aeddfed gan ail-bwysleisio'r negeseuon am ddiogelwch ar-lein.

**Dydd Miwisg Cymru**

Cawsom hwyl yn dathlu Dydd Miwsig Cymru ar y 10fed o Chwefror yn yr ysgol. Roedd pawb wrth eu boddau yn croesawu Tara Bandito i'r ysgol ar gyfer gig arbennig a gafodd ei ddarlledu'n fyw ar draws Cymru. Bu'n gyfle arbennig i fwynhau, gwrando a dawnsio i'w chaneuon newydd. Roedd yn brofiad anhygoel i'r plant. Trefnwyd llu o weithgareddau hwyliog yn ystod y dydd i godi ymwybyddiaeth o artistiad a grwpiau Cymraeg ac i ddathlu cerddoriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gweithdy STEM Lego**

Cafodd blynyddoedd 3,4,5 a 6 weithdy diddorol a rhyngweithiol gan yr Adran Ffiseg o Brifysgol Caerdydd yn ystod yr wythnos 13eg o Chwefror. Wrth gyd-weithio ac arbrofi llwyddodd pawb i greu lloerenni i'w roced gan ystyried y gost a dulliau cyfathrebu effeithiol. Dangoswyd sgiliau datrys problemau gwych gan bawb.



**Pêl-droed yr Urdd**

Cafodd blynyddoedd 5 a 6 llwyddiant yng nghystadlaethau'r Urdd Caerdydd a'r Fro ar 16eg o Chwefror yn cystadlu yn erbyn ysgolion lleol. Braf oedd gweld y bechgyn a'r merched yn cystadlu'n frwd a gyda chymaint o frwdfrydedd. Da iawn chi blant.

# Colofn Natur

## *Y Crëyr Bach*



**Gethin Jenkins-Jones**

Mae gen i'r fraint y mis yma i fod yn rhan o ddathliad hanner canrif y cylchgrawn bendigedig hwn. Yn sicr, mae yna lawer i ymfalchïo wrth gyrraedd y fath garreg filltir - mae cymdeithas, isadeiledd, a natur Caerdydd wedi newid cryn dipyn ers 1973 (er na allaf dystio fy hun am hynny!). Ac wrth i mi blannu coed ar draws y ddinas bob wythnos fel rhan o fy swydd, dwi'n hoffi dychmygu y bydd y ddinas hon hyd yn oed yn fwy prydferth mewn hanner canrif i ddod.

Ond hyd yn oed dros yr ugain mlynedd diwethaf, rydw i wedi sylwi ar ambell newid yn ein bioamrywiaeth, a heddiw byddaf yn ffocysu ar un o'r newidiadau mwyaf positif oll - dychweliad aderyn a fyddai wedi creu llawer o ffws ymhlith adarwyr pe bai wedi troi fyny yma yn yr 1970au - y crëyr bach.

Ag edrychiad fel crychydd bach efo plu gwyn fel eira, mae'r crëyr bach yn sicr yn un o adar mwyaf deniadol y ddinas, ac mae eu niferoedd yn cynyddu. Yn ein hoes fodern, ond yn 1996 y dechreuodd yr aderyn yma fridio yn y DU, a thra'n plentyn dim ond ym Mae Caerdydd yr oeddwn yn debygol o'u gweld yn lleol. Roedd gweld un yn Fferm y Fforest yn achlysur prin iawn - efallai ond unwaith y flwyddyn, ond bellach rydw i yn gweld lan at dri ohonynt yna efo'i gilydd bob wythnos.

Pam y cynyddu sydyn? O bosib newid hinsawdd, ond hefyd oherwydd nid ydy'r adar yma'n cael eu hela am eu plu ar y cyfandir fel yr oeddent slawer dydd. Yn wir, nid ydy'r aderyn yma yn hollol newydd i'r wlad. Yn ystod hanner cyntaf y mileniwm diwethaf roedd poblogaethau mawr ohonynt yma, ond erbyn cychwyn yr 1800au diflannodd oherwydd hela ac o ganlyniad i hinsawdd oer yr oes ia fechan. Ond bellach mae nôl yn ein plith, ac yn ystod y degawd diwethaf mae crëyr arall o'r cyfandir, y crëyr mawr gwyn, wedi cychwyn nythu ym Mhrydain hefyd.

Heddiw, mae modd gweld y crëyr bach ar sawl corff o ddŵr yn y ddinas, megis Parc y Rhath, Llyn Hendre, Llyn Lamby a'r afon Taf. Ar ôl cyfnodau o law, pan mae'r llynnoedd yn orlawn a'r afonydd yn fochaidd, maent yn aml yn symud i gaeau i fwydo ar fwydod. Gallwch hefyd eu gweld yn gorffwys ar ganghennau coed, yn enwedig wrth iddi nosi.

Fel aelodau eraill teulu'r crëyr, mae gan yr aderyn yma ddiet amrywiol. Maent yn bennaf yn bwyta pysgod, ond yn wahanol i'n crychydd, sy'n sleifio araf trwy'r dŵr, mae'r crëyr bach yn ffeindio eu hysglyfaeth gan gicio'i thraed melyn ar hyd gwaelod y dŵr i'w dychryn. Dwi wedi gweld rhai yn dal sawl pysgodyn o fewn ychydig funudau trwy ddefnyddio'r strategaeth yma.

Yn achlysurol byddant hefyd yn dwyn pysgod o fulfrain cyn iddynt eu llyncu'n llawn, ac roedd yn ddoniol gweld hwn unwaith tra'n y brifysgol. Maent hefyd yn hoff o fwyta amffibiaid ac ymlusgiaid, ac ambell lygoden os caiff y cyfle, ac ar hyd pyllau trai molysgiaid a chrancod hefyd.

Mae rhan fwyaf o'r crëyr bach sy'n treulio mwyafrif o'r flwyddyn yng Nghaerdydd yn teithio i Loegr neu i'r cyfandir am rai wythnosau yn y gwanwyn i nythu. Bydd pob pâr yn adeiladu pentwr o frigau ymysg canghennau coeden cyn dodwy 3-5 wy gwyrdd. Yn wahanol i lawer o'n hadar eraill, mae'r tad yn helpu efo'r gwaith o edrych ar ôl y cywion - a fydd yn gadael y nyth ar ôl tua chwe wythnos.

Mae'n beth neis cael yr aderyn yma yn ein dinas, a'r tro nesaf i chi weld un, cofiwch eich bod yn edrych ar aderyn a oedd ar ddechrau oes *Y Dinesydd* yn aderyn hynod o brin a chyffrous i'w weld yma. Dwi'n siŵr mi fydd bioamrywiaeth Caerdydd yn newid ychydig eto dros yr hanner canrif nesaf (ac wedi hynny), ond mae gen i deimlad bydd y crëyr bach yn aros yma o hyd, a bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ddigon lwcus i'w mwyhau hefyd.



***Llun: Cliff Woodhead***

## Y Dinesydd yn dathlu'r 50

**Hen Rifynnau**

Mae'n debyg bydd rhai ohonoch eisoes yn gwybod bod modd i ddarllen nifer o'r hen rifynnau os trowch mewn i wefan dinesydd.cymru. Yno gwelir rhifyn cyntaf mis Ebrill 1973 a mis Mai ond nid gweddill 1973.

Es am dro bach prynhawn Mawrth, 21 Chwefror i Lyfrgell Cathays – dwedwyd wrthyf taw yno mae'r hen rifynnau. Yn wir mae degau lawer ohonynt yno mewn tua phedwar bocs! Ces olwg arnynt a bwriadaf fynd nôl yno yn fuan iawn. Yn anffodus dydy'r mwyafrif o'r flwyddyn 1973 ddim yno. Tybed a oes gan unrhyw un ohonoch hen gopïau 1973 yn eich meddiant? Rhowch wybod os gwelwch yn dda.

Sylwais fod yno gopïau dyddiol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn pan gyhoeddwyd *Dinesydd* dyddiol ar Faes Yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 1978. Gwerthwyd copïau dyddiol am 10 ceiniog. Rydw i'n sicr am fynd nôl i gael golwg ar y trysorau hanesyddol hyn. Ar glawr y rhifyn hwn o'r *Dinesydd* mae llun o glawr y rhifyn cyntaf un.!

**Cylchrediad**

Tybed sut olwg fydd ar bethau wedi i nifer ohonoch gobeithio lenwi ffurflen danysgrifio yn ystod mis Mawrth. Daeth sawl amlen i law trwy'r post ac ebost ers canol mis Chwefror a diolch i chi gyd.

Os ydych yn derbyn copi caled trwy'r post yna mae'n bwysig eich bod yn llenwi ffurflen danysgrifio ac yn talu lleiafswm o £18.

Mae'n amlwg bod y mwyafrif yr ochr anghywir i'r trigain oed ac ychydig sydd dal wrthi yn gweithio! Mae'n hyfryd derbyn rhai tanysgrifiadau newydd ond mae bron pawb yn bobl sydd wedi ymddeol. Rydw i o'r farn bod rhaid i'r Pwyllgor a chi'r darllenwyr ffyddlon geisio gwneud dau beth eleni sef un, ceisio sicrhau nad yw'r cylchrediad yn syrthio hyd yn oed yn is. Yn ail, mae rhaid i ni gael aelodau ifancach ar y Pwyllgor. Rydw i eisoes wedi holi rhai ohonoch ac mae croeso i eraill anfon eich syniadau ac awgrymiadau ymlaen at eirianagwilym@gmail.com

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Chwefror 20 croesawodd ein Cadeirydd Shirley Williams ein gŵr gwadd, Rhisiart Arwel i ymuno â ni i Ddathlu Gŵyl Dewi.

Wrth gyflwyno, ddywedodd ein Cadeirydd bod Rhisiart wedi cael y fantais fel mab i weinidog o fyw yn y de a'r gogledd, Dinbych, Garnswllt a Corwen, cyn mynd ymlaen i astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Manceinion, gan arbenigo yn chwarae'r gitâr. Cafodd y cyfle i astudio a pherfformio'r gitâr ym Madrid a Llundain a hynny o dan athrawon byd enwog.

Cafodd y profiad arbennig o fynd i'r Wladfa yn 1991, a datblygodd gariad arbennig am y lle gan ddychwelyd i fod yn athro yno am gyfnod.

Yn ei gyflwyniad aeth Rhisiart â ni ar daith gerddorol gan ymweld â cherddoriaeth gwledydd fel Brazil, Sbaen, Yr Almaen, Ffrainc, Catalwnia a'r Wladfa gan orffen gyda cherddoriaeth emynau Cymru ar y gitâr. Roedd ei berfformiad o "Astwrias" yn hudolus.

Yn ei eiriau ei hun llwyddodd i swyno'r gynulleidfa i fyd arall drwy'r gerddoriaeth wrth i ni ymgolli drwy'r emosiwn i ail fyw atgofion o brofiad.

Diolchwyd iddo am ei berfformiad gan y cerddor Alun Guy, ac fe longyfarchwyd Rhisiart am ei gyfraniad arbennig wrth gyflwyno cerddoriaeth Cymru i'r byd.

Mwynhawyd gwledd o baned, bara brith a phice ar y maen i gwblhau'r noson.



***Rhisiart Arwel, Shirley Williams ac Alun Guy***

## Llythyr at *Y Dinesydd*

*Annwyl Olygydd,*

Pan aeth Cwmni Theatr Maldwyn ar daith gyda sioe'r *Mab Darogan* yn yr hydref, wnaethon ni ddim llwyddo, yn anffodus, i gynnwys y de-ddwyrain ar y daith. Fodd bynnag, ar ôl yr ymateb rhyfeddol i'r daith honno, a gwerthu pob tocyn ym mhob theatr ar y daith, fe gawson ni'n perswadio bod rhaid cynnal ail daith o'r sioe yn y gwanwyn.

Rwy'n falch iawn o gael rhannu'r newyddion gyda darllenwyr y *Dinesydd* felly y bydd cynhyrchiad Cwmni Theatr Maldwyn o'r *Mab Darogan* i'w weld yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd, a hynny nos Sadwrn 29 Ebrill. Dyma sioe gerdd Gymraeg am hanes Owain Glyndŵr sy'n addas i'r teulu cyfan. Bachwch eich tocynnau!

*Penri Roberts*
Cwmni Theatr Maldwyn

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Un effaith o'r cynnydd dychrynllyd ym mhris nwy a thrydan yn ddiweddar yw bod prynwyr a rhentwyr eiddo yn chwilio am dai sy'n defnyddio egni yn effeithlon (bandiau egni A-C). Mae yna 7 band o A i G (mae band G yn aneffeithlon iawn o ran defnydd egni ac felly'n ddrud i gadw). Os oes ganddoch dŷ ym mand D neu is ac rydych yn ystyried gwerthu'r tŷ neu os ydych yn landlord sy'n ystyried gosod y tŷ ar rhent, mae angen i chi wirio os oes angen buddsoddi mewn gwelliannau i'r tŷ fel ei fod yn fwy effeithlon yn defnyddio egni, neu gall hyn arwain at ostyngiad yng ngwerth y tŷ neu i'r swm rhent misol a dderbyniwyd.

Yn ogystal, mae rhai darparwyr morgeisi yn cyfyngu faint o flaendal y gall landlordiaid/prynwyr cartrefi ei dderbyn os oes gan y tŷ sgôr effeithlonrwydd ynni gwael.

2. Daliwch ati i fod yn effro i sgamiau. Mae'r sgamiau diweddaraf yn cynnwys pobl yn honni eu bod yn codi arian i ddioddefwyr daeargryn Twrci-Syria. Gallwch dderbyn galwad ffôn, ebost neu desct yn gofyn i chi ddilyn cyfarwyddiadau amheus i wneud rhodd. Ewch i wefannau swyddogol yr elusennau sy'n codi arian tuag at yr achos yma, er mwyn osgoi peryg sgamiau.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

***Cwestiynau Huw ac Aled: Mae iechyd fy modryb oedrannus yn dirywio ac efallai y bydd angen iddi fynd mewn i gartref yn fuan. Beth yw'r goblygiadau ariannol? Mae ganddi gynilion o £300,000 ac incwm o £2,000 y mis.***

Yn gyntaf, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, sicrhewch fod gennych ddogfennau Atwrneiaeth *(Power of Attorney)* Ariannol ac Iechyd mewn lle fel eich bod yn gallu parhau i ofalu amdani wrth iddi ddod yn fwy bregus ac wrth i'w gallu meddyliol leihau.

Os yw hi mewn iechyd rhesymol, hi fydd yn gyfrifol am dalu ffioedd y cartref gofal a gall hyn fod yn ddrud iawn (tua £80,000 y flwyddyn yng Nghaerdydd am gartref o ansawdd da).

Os bydd ei chynilion wedi gostwng i £50,000 ar ôl ychydig o flynyddoedd, yna gallwch wneud cais i'r cyngor lleol am gymorth ariannol i dalu canran sylweddol o ffioedd y cartref gofal. Bydd asesiad gofal yn cael ei gynnal ac os bydd ei hiechyd wedi parhau i ddirywio'n sylweddol, bydd y Cyngor yn camu i'r adwy i dalu'r rhan fwyaf o ffioedd y cartref gofal a bydd eich modryb yn talu canran o'r ffioedd ar sail ei hincwm misol.

Nodyn: gall canllawiau ynghylch cynilion unigolion ar gyfer talu ffioedd gofal amrywio fesul cyngor.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 20fed Chwefror 2023 cawsom ddarlith ddiddorol ond brawychus ar Microblastigau gan Iwan Palmer o Brifysgol Caerdydd. Mae Iwan yn wreiddiol o Bontlliw ac aeth i Ysgol Gynradd Bryniago ac Ysgol Uwchradd Gŵyr cyn gwneud graddau ym Mhrifysgol Caerdydd a Queen's Belfast. Mae e nawr yn gweithio i CALIN (Rhwydwaith Geltaidd Arloesi Gwyddorau Bywyd Uwch) sy'n gydweithrediad rhwng prifysgolion yng Nghymru ac yn Iwerddon. Mae Iwan yn cydweithio gyda chwmni 'The Young Darwinian' sy'n datblygu citiau i alluogi plant ysgol i ymchwilio i feicroplastigau yn ogystal â thestunau STEM eraill.

Mae'r term microplastig yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio darn o blastig llai na 5mm o hyd. Ceir rhai cynradd sy'n cyrraedd byd natur fel microblastigau a rhai eilradd sy'n troi yn ficroblastigau dros amser. Cyn symud at microblastigau rhannodd Iwan ffeithiau brawychus am blastigau, o'r 8.3 biliwn tunnell a gynhyrchwyd ers y 1950au, dim ond 9% sydd wedi cael eu hailgylchu, mae 12% wedi eu llosgi ac mae 79% yn tirlenwi neu yn yr amgylchedd. Mae gwastraff plastig i'w gael o gopa mynydd Everest i ddyfnderoedd dyfnaf y môr. Mae canran gynyddol o'r plastig yma i'w gael fel microblastigau sy'n anweledig i'r llygaid ond sydd wedi cael ei ganfod yn ein bwyd, ein glaw a hyd yn oed yn ein gwaed!

Mae effeithiau microblastigau ar ein hiechyd yn anodd i'w mesur, ond mae'r consensws gwyddonol yn dweud eu bod yn beryglus. Mae hon yn broblem sydd wedi ei chreu gan y cenedlaethau diwethaf a bydd rhaid i'r cenedlaethau nesaf ei datrys, felly rhaid ysbrydoli plant ysgol i ymchwilio i'r broblem yma. Soniodd Iwan bod citiau datblygwyd i ganfod microblastigau wedi bod yn llwyddiant mewn ysgolion cynradd. Wedi ein brawychu roedd peth newyddion da; mae cyfradd ailgylchu plastigau yn cynyddu, mae deddfau nawr yn lleihau defnydd o blastigau na all gael eu hailgylchu ac mae son am y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau biodechnolegol i fwyta plastigau gwastraff. Ond dyma broblem fydd yn parhau, felly meddyliwch yn galed cyn prynu eich potel blastig nesaf o ddŵr!

*Rhys Morris*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

*Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Parkrun wedi cynyddu mewn poblogrwydd gan gynnwys yma yng Nghaerdydd. Mae'r rhedwr brwd Alun Williams o Dreganna yn bwrw golwg ar boblogrwydd Parkrun:*

Pob bore Sadwrn, pan mae mwyafrif llethol o bobl Caerdydd yn dal yn gysglyd yn eu gwelyau, bydd nifer yn ymgynnull ar draws y ddinas i gymryd rhan mewn digwyddiad wythnosol sydd wedi troi i nifer fawr i fod yn obsesiwn llwyr o'r enw Parkun.


Alun Williams

Ers sefydlu'r un cyntaf 15 mlynedd yn ôl ym Mharc Biwt, mae bellach pedwar rhediad wedi eu lleoli o gwmpas y brifddinas gyda channoedd yn dod i redeg 5k mor gyflym ag sy'n bosibl. Bellach ceir Parkun lawr yn Grangetown, Tremorfa, Trelai ac un newydd yn Llanisien gyda dros fil o bobl yn cymryd rhan.

Mae poblogrwydd Parkrun yn dangos pa mor boblogaidd mae rhedeg wedi datblygu yng Nghaerdydd, gyda nifer o glybiau rhedeg wedi eu sefydlu o gwmpas y ddinas. O Les Croupiers yng ngorllewin Caerdydd, i Rhedwyr CDF yng nghanol y ddinas lawr i Grangetown Runners ar gyrion Bae Caerdydd.

Dwi wedi bod yn rhedeg ers bron i 20 mlynedd ac wedi gweld y gamp yn mynd o nerth i nerth. Pan gychwynnais redeg, roedd rhedeg yn cael ei weld fel camp ar gyfer pobl od iawn gyda dim ond ychydig o filoedd yn dod allan i redeg Hanner Marathon Caerdydd. Ond nawr, mae degau o filoedd o bobl yn dod allan i redeg y ras ac mae'n dod yn ddigwyddiad mor fawr â diwrnod Chwe Gwlad wrth weld nifer o bobl yn cymryd rhan neu'n dod allan i gefnogi ffrindiau neu aelodau o'r teulu yn cymryd rhan.

Mae bod yn aelod o Glwb Rhedeg Grangetown Runners ym Mae Caerdydd yn rhoi siawns i redwyr gyfarfod, rhedeg ac hyfforddi gyda'i gilydd. Mae Caerdydd yn le perffaith i redeg i ddweud y gwir, gyda nifer o barciau a llwybrau yn rhoi cyfleoedd i bobl rhedeg o gwmpas y ddinas a gweld rhannau o'r ddinas na fuaswn erioed wedi gweld mewn unrhyw ffordd arall.

Mae rhedeg o gwmpas Caerdydd yn rhoi siawns i weld y ddinas mewn ffordd cwbl wahanol, lle gellir rhedeg trwy ganol y ddinas neu rhedeg ar draws mur bae Caerdydd ar fore Sul braf. Cychwynnais redeg fel ffordd i gadw heini a cholli pwysau, ond mae wedi dod yn rhan bwysig o fy mywyd ac un fy nghariad Angela. Dwi wedi cwblhau nifer o rasus ar draws y byd dros y blynyddoedd ond does dim byd yn curo codi ar fore Sadwrn i wneud Parkrun. Nid yw'n benwythnos i mi os nad wyf yn gwneud un. Mae rhedwyr o bob cwr o Gymru a dros y ffin yn dod fewn i Gaerdydd i gwblhau y Parkrun er mwyn dilyn y nod o gwblhau gymaint o rediadau ag y medrant.

Mae Parkrun wedi bod yn ddylanwad mawr ar ddiwylliant rhedeg y ddinas, gan bwysleisio digwyddiad cymunedol sydd yn rhoi digon o gefnogaeth ar gyfer pob rhedwr o unrhyw allu. I rhai pobl yr elfen bwysicaf yw cymdeithasu ar ôl rhedeg a gwario amser yn hel clecs dros baned!

## Oxfam – Caerdydd

Ydych chi'n gwybod am Siop Oxfam, 36 Heol y Santes Fair? - siop elusen sy'n gwerthu llyfrau a cherddoriaeth ail-law yn bennaf, ond nwyddau newydd sbon hefyd: cardiau Nadolig a chyffredinol, te/coffi/siocled/ffrwythau/nwyddau golchi Masnach Deg. Mae rheolwraig newydd sbon wedi cychwyn yn ddiweddar, un sy'n awyddus iawn i godi proffil Oxfam yn y brifddinas ac am roi hwb i Gymreicdod a'r ardal leol yn arbennig. Felly dewch ar ymweliad yn fuan!




Fel rhan o'r ymdrech i godi arian dros Oxfam, gofynnwn hefyd am roddion oddi wrthoch CHI - unrhyw lyfrau Cymraeg a Saesneg (ac ieithoedd eraill) sydd mewn cyflwr da, neu eithaf da, gan fod safonau Oxfam yn eitha uchel yn y gobaith bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi ansawdd yr hyn mae nhw'n prynu – nifer helaeth o'r rhoddion yn cael eu gwerthuso ar lein yn gyntaf. Nid siop 'ceiniog a dime' yw e! Yma cewch ddewis eang o bob math o lyfrau – ffuglen, ffeithiol, academaidd, plant, hamdden, trosedd, celf, hanes, cofiannau ayyb: cerddoriaeth hefyd o bob math - poblogaidd a chlasurol, veinil (neu LP gynt) CD, llyfrau a sgor.

Roeddem yn falch iawn i ddarllen geiriau rhywun yn ddiweddar ar lein yn rhoi clod i ni am beidio â bod fel 'unrhyw siop elusen cyffredin'! Dywedodd ei fod wedi cael 'bargen am £2' a falle gewch chi fargen hefyd os dewch ar ymweliad.

Os am gysylltu: 029 2022 2275 neu oxfamshopf5312@oxfam.org.uk

Gallwch gyfrannu tuag at elusen DEC yn y siop hefyd. DEC sy'n ymateb i drychinebau erchyll fel y Ddaeargryn ddiweddar yn Syria / Twrci.

Gallwch fod yn wirfoddolwr siop Oxfam hefyd, os dymunwch, fel fi!

*Eluned O Rook*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Daniel neu Deiniol !!!*

### Gwilym Dafydd

**Rhifyn Dathlu'r 50: mis Ebrill**

Cyn i chi ddarllen hwn bydd Pwyllgor y *Dinesydd* (2 Mawrth) mae'n debyg wedi trafod sut medrwn ni gynnal digwyddiadau cymdeithasol i ddathlu pen blwydd *Y Dinesydd* yn 50 oed.

Bydda i siwr o fod yn rhifyn arbennig mis Ebrill yn dweud gair ynglyn â sut mae siaradwyr newydd wedi cael llawer o sylw yn ystod y cyfnod 1973-2023 ym mhapur bro hynaf Cymru.

Ychydig cyn i fi ddechrau arni yma ym mis Mawrth 2018, am gyfnod cyn hynny bu person enwog iawn yn gofalu am y dudalen hon. Pwy sy'n cofio am Glyn 'Doeth' yn y Brawd Mawr? Erbyn hyn mae'n hyfforddi i fod yn offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru. Mae miloedd lawer yn dilyn Glyn ar Trydar – mwy na'r 1,876 sy'n dilyn *Y Dinesydd*!

Cyn dechrau cyfnod Covid-19, mis Mawrth 2020, ron i'n gwerthu tua 30-40 copi mewn sawl Clonc wythnosol neu fisol. Nid yw sawl Clonc wedi ailgychwyn hyd y gwn i, er engraifft Canolfan Eglwys Ararat yn Yr Eglwys Newydd, grwpiau y diweddar Lynda Newcombe, bore Sadwrn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Er rydw i o hyd yn dosbarthu tua 20 copi i chi a diolch am eich cefnogaeth mewn sawl clonc hwyliog.

Ond beth am gael un Clonc mawr eleni i ddathlu'r *Dinesydd* yn 50 oed? Oes syniadau gyda chi? Pwy sy'n mynd i drefnu? Fase'r Castell yn rhy fach!! Anfoner eich syniadau ymlaen at eirianagwilym@gmail.com Diolch o flaen llaw!

Dyna i chi gyd-ddigwyddiad – munudau ar ôl i fi deipio'r uchod, gwelais taw ym Mharc Bute y bydd Tafwyl ar 15 a 16 mis Gorffennaf – nid mis Mehefin noder! Beth am gynnal Clonc Mawr prynhawn 15 neu 16 o fis Gorffennaf? Mae hwn yn ddyddiad cyfleus oherwydd mae'n debyg byddwn wedi cyhoeddi rhifyn Gorffennaf /Awst rhyw wythnos cyn Tafwyl.

**Daniel neu Deiniol**

Unwaith eto rhaid i fi ymddiheuro i Deiniol am ei alw yn Daniel. Gwnes i hyn unwaith o'r blaen yn rhifyn mis Mawrth 2022!

Ron i yn Clonc Caffe Nero Jams Hywel, dydd Iau, 16 Chwefror, yng nghwmni Sheridan, Cathy, Steve, Alan a Deiniol. Dosbarthais gopïau o'r *Dinesydd* a phawb yn troi i dudalen Siaradwyr Newydd. Mae llygaid craff gan Cathy a dywedodd hi rywbeth am Daniel.

Dwi'n cofio ysgrifennu paragraff tro diwethaf am 'Brinder Tiwtoriaid.' Don i ddim yn medru credu fy llygaid pan ges i olwg arall ar y ddau baragraff oherwydd roedd gen i Daniel…Deiniol…Daniel a Deiniol yn y paragraff olaf. Mae hwn yn anghredadwy! Ychydig o syndod na sylwodd Eirian ar hyn na chwaith Alun Treharne sydd fel arfer â llygaid hynod o graff fel cyn-olygydd wrth ei waith pob dydd!

Mae'n debyg bydd llawer ohonoch wedi clywed y newyddion erbyn hyn bod siop Jams Hywel, House of Fraser, Yr Ais yn mynd i gau tua diwedd mis Mawrth. Ble awn ni nesaf – dychwelyd i'r Castell siwr o fod. Dyn ni wedi symud lleoliad sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd – pwy sy'n cofio Clonc yn Llaeth a Siwgr yn Yr Hen Lyfrgell, Caffi Zest a'r tŷ bwyta yn Jams Hywel?



Bydd hi'n sicr yn ddiwedd cyfnod pan fydd drysau Jams Hywel yn cau am y tro olaf. Dwi'n cofio cael fy swydd gyntaf yno yng nghanol y 70au – bûm yn adran gwerthu dillad dynion am rai misoedd haf – yno roedd Caffi Zest rhai blynyddoedd yn ddiweddarach. Ydych chi'n cofio eich swydd gyntaf – beth wnaethoch chi tybed? Medrwn ni gael sgwrs fach am hyn mewn ambell glonc yn ystod mis Mawrth!

# Merched y Wawr Bro Radur

Ni, aelodau cangen Merched y Wawr Bro Radur oedd pobol Beti George nos Fercher, Chwefror 1af.

Rhoiodd Beti fraslun o'i bywyd hi i ni a bu'n orig yr un mor hynod ddiddorol â'r rhaglenni 'Beti a'i Phobol' sy'n mynd ers 1987. Magwyd hi a'i brawd ar aelwyd Gymraeg a cherddorol ym mhentre bach gwledig Coed y Bryn, 7 milltir o Langrannog, ei thad yn wehydd a'i mam yn gwc yn yr ysgol fach.

Cafodd swydd fel gohebydd llawrydd i raglen 'Bore Da' yn Abertawe a daeth cyfle i ohebu ar bynciau newyddion y dydd adeg streiciau'r glowyr ac yn ddiweddarach daeth yn llais cyfarwydd yn darllen y newyddion a chyflwyno llawer o raglenni cerddoriaeth a chymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni dros y blynyddoedd. Rhoddodd Beti gryn sylw i'w thaith emosiynol gyda *Plant y Sianel*, criw o bob cwr o Gymru fu'n cadw cwmni iddi bob degawd ar benblwydd y sianel ers 1993.

Dyn ni'n lwcus iawn yng Nghymru i'r holwraig a'r gyfathrebwraig hon wireddu ei dymuniad pan ofynnwyd iddi yn wyth oed beth oedd hi eisiau bod ar ôl tyfu lan. Yr ateb 'gweithio i'r BBC'!

*Meri Griffiths*

## Y DIGWYDDIADUR

### Mawrth

**Mawrth, 7 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson o adloniant cerddorol yng nghwmni Marged a Steffan Jones, am 7.30pm yn festri'r capel. Croeso cynnes. i bawb.

**Gwener, 10 Mawrth**
Clwb Canna. Candelas a Dadleoli yn perfformio yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna, am 7.30pm. Tocynnau: £12 o Caban neu Driftwood, neu ar-lein: Clwb Canna ar TicketSource

**Sadwrn, 11 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Cylch Gorllewin Caerdydd yn Ysgol Glantaf ac Eisteddfod Cylch y Fro yn Ysgol Bro Morgannwg.

**Mawrth, 14 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Bethan Lewis am Sain Ffagan, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher, 15 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Offerynnol Cynradd Caerdydd a'r Fro yn Neuadd Gwersyll yr Urdd, Caerdydd.

**Mercher, 15 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Bore cymdeithasol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Mercher, 15 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi yn yr Hen Lythyrdy (Old Post House), Sain Ffagan, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 am ddau gwrs, teisenni cri, a the neu goffi. Siaradwr gwadd: Alun Guy, a fydd yn sôn am ei atgofion o'i ddyddiau cynnar gyda'r Urdd yng Nghaerdydd. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802).

**Iau, 16 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Offerynnol Uwchradd Caerdydd a'r Fro yn Neuadd Gwersyll yr Urdd, Caerdydd.

**Gwener, 17 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Rebecca Thomas, awdur y nofel *Dan Gysgod y Frenhines* (2022), ar y testun 'Ysgrifennu rhwng y llinellau: heriau a chyfleon ffuglen hanesyddol ganoloesol'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Cadeirydd, Dr Llion Pryderi Roberts (RobertsLP1@caerdydd.ac.uk).

**Llun, 20 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan yr awdur, Alun Gibbard, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mercher, 22 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Ddawns Caerdydd a'r Fro yn Ysgol St Cyres, Penarth.

**Mercher, 22 Mawrth**
Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023. 'Corau Salem yn Cyhoeddi' gyda Chôr Merched Canna, Bechgyn Bro Taf, Côr Hen Nodiant, Côrdydd a Merched Plastaf yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.00pm. Pris: £10 wrth y drws; plant am ddim.

**Iau, 23 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Siaradwr gwadd: y darlledwr a'r sylwebydd, Karl Davies. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Iau, 23 Mawrth**
Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn y Cwtsh, Chapter, Treganna, am 7.30pm.

**Iau–Gwener, 23–24 Mawrth**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Bywyd yn Oes y Gin' gan Chris Harris yn Neuadd Llanofer am 7.30pm. Tocynnau ar-lein: Bara Caws ar We Got Tickets

**Gwener, 24 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn Neuadd Gwersyll yr Urdd, Caerdydd

**Gwener, 24 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd y Prifardd Ifor ap Glyn yn trafod ei waith yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 25 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru, Caerdydd a'r Fro. Eisteddfod Cynradd Rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn Ysgol Bro Morgannwg.

**Sadwrn, 25 Mawrth**
Datganiad Organ gan William Thomas yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm. Tocynnau: £10 (£5 i blant a myfyrwyr). Yn yr hwyr am 6.30pm, bydd noson o gerddoriaeth a dawns gospel.

**Mawrth, 28 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cinio Pen Tymor yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd, yng nghwmni gwestai'r Gymdeithas, Gill Griffiths, am 7.00pm.

**Mercher, 29 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Ann Mears ar y testun 'Trefnu Blodau', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).


**Iau, 30 Mawrth**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Marion Loeffler ar y testun 'Penodau tywyll yn hanes y Waun Ddyfal a'r Mynydd Bychan'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur ar Yr Athro E. Wyn James Manylion tud.2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 8)

Etholwyd D. Arthen Evans (1878–1936) yn ysgrifennydd cyntaf cymdeithas Cymrodorion y Barri pan y'i sefydlwyd yn 1906, ac yntau'n athro ifanc, 28 mlwydd oed, ar y pryd. Symudodd i'r Barri yn 1901 ac erbyn 1906 roedd eisoes wedi dechrau dod i'r amlwg fel un â'i galon yn llosgi dros Gymru a'r Gymraeg ac fel ymgyrchydd brwd a threfnus. Ffynnodd Cymrodorion y Barri o dan ofal Arthen, ond bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'w ysgrifenyddiaeth yn 1914 yn sgil datblygiad hynod bwysig yn hanes y mudiad cenedlaethol.

Fel y nodwyd y tro diwethaf, un o nodweddion diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yng Nghymru oedd creu cymdeithasau Cymraeg o bob math, yn lleol ac yn genedlaethol. Yr ysgogiad ar gyfer hynny oedd yr adfywiadau gwladgarol, diwylliannol a chrefyddol a brofodd Cymru yn y cyfnod hwnnw, ynghyd â'r bygythiad mawr i'r Gymraeg a'i diwylliant, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru, gan yr hyn a alwai Arthen Evans yn 'llanw Seisnig'.

Roedd sefydlu Cymrodorion y Barri yn 1906 yn rhan o'r symudiad hwnnw i greu cymdeithasau Cymraeg er amddiffyn a hyrwyddo'r iaith; a bu gan y Barri le canolog yn y cam pwysig a gymerwyd yn 1913 i geisio tynnu'r cymdeithasau hynny ynghyd yn gorff cenedlaethol trwy ffurfio 'Undeb y Cymdeithasau Cymraeg'.

Man cychwyn creu'r Undeb oedd ymweliad â'r Barri gan J. Tywi Jones (1870–1948), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Glais yng Nghwm Tawe (a thad-cu, gyda llaw, i Mrs Helen Gibbard, sy'n byw yn yr Eglwys Newydd). Wrth sgwrsio â D. J. Martin, ysgrifennydd ac organydd Calfaria, eglwys y Bedyddwyr yn Nhregatwg, awgrymodd Tywi y byddai'n dda gweld sefydlu cyngres o gymdeithasau Cymraeg. Roedd D. J. Martin yn gerddor medrus a gyfrannai'n gyson i weithgareddau Cymrodorion y Barri. Fe drosglwyddodd ef awgrym Tywi i Arthen Evans ac aeth Arthen ati yn enw Cymrodorion y Barri i gynnal cynhadledd undydd ar gyfer y cymdeithasau Cymraeg yng nghapel y Tabernacl yn y Barri ar 15 Mawrth 1913 i wyntyllu'r syniad.

Daeth dros 100 o gynrychiolwyr ynghyd i'r gynhadledd honno yn y Barri, dan gadeiryddiaeth Ben Evans, gweinidog y Tabernacl (a thad-cu Gwynfor Evans, a aned yn y mis Medi cyn y gynhadledd ac a ddaeth maes o law yn aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru). Yn sgil hynny, gwelwyd sefydlu Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn ffurfiol wyth mis yn ddiweddarach, ar 15 Tachwedd 1913, mewn cyfarfod yng nghapel Maes-yr-haf, Castell-nedd. Etholwyd Owen M. Edwards yn llywydd yr Undeb ac Arthen Evans yn ysgrifennydd cyffredinol.

Brwdfrydig, a dweud y lleiaf, oedd yr ymateb i'r datblygiadau hyn gan D. Morlais Samuel, un o arweinwyr bywyd Cymraeg Abertawe a'r un a etholwyd yn ysgrifennydd Adran Gorllewin Morgannwg o'r Undeb newydd. Meddai mewn araith i Gymdeithas Mabinogion Abertawe ym mis Mawrth 1914:

> Credaf fod 'Undeb y Cymdeithasau Cymraeg' yn mynd i wneud gwaith mawr er dyrchafu ein gwlad, ac y myn weld ein hiaith a'n llenyddiaeth gyfoethog yn cael eu lle priodol yn ein plith, […] a phan wyddom fod ein Hysgrifennydd Cyffredinol yn neb llai na'r ysgolfeistr a'r llenor enwog o'r Barri y mae ein hyder yn fawr. Nis gallem gael rhagorach Arthen yn ysgrifennydd. Mae yn llawn mor alluog ag yw o wlatgar.

A brwdfrydedd tanbaid sy'n nodweddu'r llythyr a anfonodd Arthen Evans i'r wasg yn nechrau 1914, sydd fel 'galwad i'r gad' yn pwyso ar gymdeithasau Cymraeg, mawr a mân, i ymuno â'r Undeb. Meddai:

> Gwahoddir pob Cymdeithas Gymraeg i ymuno. […] Bwriedir uno'n holl luoedd o blaid ein hiaith.
>
> Os gofyn neb pa fudd a fydd o ymuno, boddloned ar yr hen air, 'Mewn undeb mae nerth.' […]
>
> Nid oes angen i neb fod ar ôl. Y mae'r gwersyll Cymreig yn symud. Cafwyd digon ar Seisnigeiddio Cymru.

Er nad etholwyd Tywi Jones yn un o swyddogion Undeb y Cymdeithasau Cymraeg, bu ganddo ran amlwg yn ei sefydlu a mynychai weithgareddau'r Undeb yn gyson dros y blynyddoedd. Ar ben hynny, chwaraeodd ran bwysig yn hyrwyddo'r Undeb, a'r mudiad cenedlaethol yn gyffredinol, yn rhinwedd ei swydd fel golygydd y papur newydd *Tarian y Gweithiwr* o 1914 hyd 1934, oherwydd fe gynhwysai'r *Darian* yn rheolaidd adroddiadau am waith yr Undeb yn ganolog a'r cymdeithasau Cymraeg unigol.

Anodd gorbwysleisio pwysigrwydd Undeb y Cymdeithasau Cymraeg, a chyfraniad Tywi Jones ac Arthen Evans yn benodol, i'r gwaith o gadw fflam y mudiad cenedlaethol ynghyn mewn cyfnod argyfyngus yn ei hanes. Meddai D. Tecwyn Lloyd am ddechrau'r 20fed ganrif yn ei gofiant i Saunders Lewis:

> Yn wleidyddol, prin y gellir amau ar ôl darllen llenyddiaeth y cyfnod nad Prydeindod ymerodrol oedd credo'r mwyafrif llethol o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd. Prin y gellir amau hefyd

> na bu'r genedl erioed mor agos i ddiflaniad gwleidyddol llwyr na rhwng 1896 a 1925.

Ac nid diflaniad gwleidyddol yn unig, oherwydd credai llawer yn y mudiad cenedlaethol fod 'llanw Seisnig' y cyfnod – a oedd (chwedl Arthen Evans) yn torri dros y wlad megis 'ton anferth' ac mewn perygl o 'orchuddio'r Gymraeg' – yn fygythiad nid yn unig i'r iaith Gymraeg, ond i barhad y genedl ei hun, gan mor annatod glwm oedd y Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig yn eu tyb hwy.

Gwelwn fynegiant gloyw o'r gred honno gan D. Miall Edwards (1873–1941), Athro Athroniaeth Crefydd ac Athrawiaeth Gristnogol yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr yn Aberhonddu, yn ei gyfrol *Iaith a Diwylliant Cenedl* (1927). Roedd Miall Edwards yn gefnogol iawn i waith Undeb y Cymdeithasau Cymraeg a gwelwyd ef ac Arthen Evans yn rhannu'r un llwyfan droeon. Cyfrol nad yw wedi cael y sylw haeddiannol yw *Iaith a Diwylliant Cenedl*, ond mae'n llyfr a ddylai fod ar restr ddarllen pawb sydd am ddeall meddylfryd llawer o gefnogwyr y mudiad cenedlaethol yn y cyfnod dan sylw. Dyma ddyfyniad o'r bennod sy'n dwyn y teitl 'Cymru a'r Gymraeg', lle mae Miall Edwards yn adleisio geiriau a ysgrifennodd Owen M. Edwards yn 1918, sef 'Y mae i Gymru ei hiaith ei hun, ac ni fedr gadw ei henaid hebddi':

> Yr iaith Gymraeg yw prif amddiffynfa ein gwahanfodaeth genedlaethol a chyfrwng gorau ein hathrylith neilltuol. Tyfodd drwy gwrs y canrifoedd gyda thyfiant y genedl, fel y tyf enaid a chorff gyda'i gilydd. Nid rhywbeth tebyg i siwt o ddillad o waith teiliwr yw iaith, y gellir ei newid am wisg arall heb golli dim o'r bywyd mewnol; eithr yn hytrach ymgnawdoliad byw o enaid cenedl ydyw, ac ni theflir mo'r corff heibio ond yn yr angau. […] Nid mater o eiriau neu seiniau meirwon yn yr awyr yw iaith, ond mater o ysbryd a bywyd; corfforiad ydyw o feddyliau cenedl, a phrif ystordy ei hanes, ei syniadau, ei theithi a'i delfrydau. Iaith yw cof cenedl, a phan gyll ei hiaith cyll ei pherthynas fyw â'i gorffennol ei hun.

Nid gormod yw hawlio mai Undeb y Cymdeithasau Cymraeg oedd un o'r tri chorff pwysicaf a frwydrai dros y Gymraeg a Chymreictod yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Y ddau arall oedd Urdd Gobaith Cymru, a sefydlwyd yn 1922, a Phlaid Cymru, a ddaeth i fod yn 1925. Tanlinellir hynny gan y ffaith mai dyna'r tri chorff a fu'n gyfrifol am drefnu Deiseb Genedlaethol yr Iaith Gymraeg.

Ymgyrch oedd honno i gael y Senedd yn San Steffan i ddiddymu'r 'cymal iaith' yn 'Neddf Uno' 1536 a gwneud y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg yn y llysoedd barn ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Lansiwyd yr ymgyrch yn Neuadd y Ddinas adeg Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1938 mewn cyfarfod ar gyfer 'mudiadau cenedlaethol Cymru' a alwyd yn enw Undeb y Cymdeithasau Cymraeg ac a lywyddwyd gan gadeirydd yr Undeb, William George (brawd David Lloyd George). Fe'i galwyd yn enw'r Undeb am ei fod yn gorff 'amhleidiol' yn boliticaidd, ond fel y dywedodd y bargyfreithiwr Dafydd Jenkins (1911–2012), a benodwyd yn ysgrifennydd ymgyrch Deiseb yr Iaith, 'cyd-bwyllgor yn cynrychioli'r Undeb a'r Blaid ac Urdd Gobaith Cymru a drefnodd yr Ymgyrch'.

Llofnodwyd y Ddeiseb gan tua 400,000 o bobl a'i chyflwyno i'r Senedd yn Hydref 1941. Ymhen y flwyddyn, yn Hydref 1942, pasiwyd Deddf Llysoedd Cymru. Diddymodd honno 'gymal iaith' 1536, ond ni roddwyd statws cyfartal i'r Gymraeg, dim ond yr hawl i'w defnyddio mewn rhai amgylchiadau mewn llysoedd yng Nghymru. Ni lwyddodd ymgyrch y Ddeiseb, felly, i wneud y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg yng Nghymru; ond wedi dweud hynny, mae modd ei hystyried yn gam cyntaf yn y broses hir a arweiniodd, gam wrth gam, at basio'r mesur yn 2011 a roddodd 'statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru'.

Ymgyrch Deiseb yr Iaith oedd y weithred olaf o bwys gan Undeb y Cymdeithasau Cymraeg. Roedd yr Undeb eisoes wedi dechrau chwythu ei blwc erbyn hynny – darfu am *Y Darian,* papur newydd Tywi Jones, yn 1934 a bu farw Arthen Evans yn 1936 – ac yn Awst 1941 fe'i hunwyd â'r Pwyllgor er Diogelu Diwylliant Cymru (a grëwyd yn Rhagfyr 1939 i geisio amddiffyn buddiannau Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd) i ffurfio corff newydd o'r enw 'Undeb Cymru Fydd' a T. I. Ellis (1899–1970) yn ysgrifennydd, sef mab Tom Ellis (1859–99), yr Aelod Seneddol a oedd – fel William George (1865–1967), cadeirydd Undeb y Cymdeithasau Cymraeg, ac Owen M. Edwards (1858–1920), sef tad Ifan ab Owen Edwards (1895–1970), sylfaenydd yr Urdd – yn weithgar ym mudiad Cymru Fydd yn Oes Victoria.

Prin iawn yw'r sylw a roddwyd i Undeb y Cymdeithasau Cymraeg gan haneswyr y mudiad cenedlaethol yng Nghymru, ac mae hynny'n fwlch mawr yn ein hanesyddiaeth, oherwydd mewn dyddiau argyfyngus gwnaeth yr Undeb gyfraniad pwysig i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant a'r hunaniaeth Gymreig, a neb yn fwy na'i ysgrifenydd cyffredinol, Arthen Evans.

Rhoddodd Arthen y gorau i fod yn ysgrifennydd Cymrodorion y Barri yn 1914 er mwyn canolbwyntio ar weithgareddau Undeb y Cymdeithasau Cymraeg, ac at hynny y trown y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Bwytai Merch y Ddinas



## *Does unman yn debyg i 'Home'*

Lowri Haf Cooke

Un cwestiwn glywa i'n aml iawn: beth yw bwyty gorau Caerdydd? Does gen i fyth ateb parod ar flaen fy nhafod... achos mae'n gwestiwn mor gymhleth a dweud y gwir! Ai holi beth yw fy hoff gaffi, tŷ cyri, neu sglodfan ydych chi? Sut yn union allai'ch helpu chi gyda fy ateb i? A beth yw'ch diffiniad chi o 'fwyty' beth bynnag?! Am beth ydych chi'n chwilio yn benodol? Dwi'n gwbod… mae gen i ymennydd sydd fel petai ar caffeine-high byth a hefyd.

Yn sylfaenol, dwi'n credu mai gofyn y mae'r cwestiwn, 'beth yw'r bwyty gora am bryd o fwyd hollol wych?' Ble allai fynd am ddêt, neu aduniad â hen ffrindiau, neu i greu'r argraff ar fy rhieni-yng-nghyfraith annwyl / hunllefus?

Bydd rhaid aros tan fis Ebrill i mi ddatgelu'r ffefrynnau hynny, ar gyfer rhifyn pen-blwydd y *Dinesydd* yn 50 mlwydd oed. Ond yn y cyfamser, ystyriwch farn beirniaid Michelin am fwytai Caerdydd a'r Fro. (Ma' 'na sôn eu bod nhw'n gw'bod beth yw beth… )

Ymysg y bwytai hynny gaiff 'mensh' yng nghanllaw y llynedd y mae Thomas a Heaney's Pontcanna, Nook a Purple Poppadom Treganna, Arboreal y Bontfaen, a Sorting Room yng Ngwesty'r Parkgate ac Asador 44 yng nghanol y dre. Ar lefel mymryn uwch mae'r Hare and Hounds yn Aberthin; dyfarnwyd 'Bib Gourmand' i'r dafarn fwyd hon, lle gewch chi 'werth eich arian' yno bob tro. Ond y llynedd dyfarnwyd 'seren' Michelin i fwyty newydd sbon; bwyty, ystyriwch, a agorodd yn ystod y pandemig. Ac nid ar chwarae bach mae newydd ddyfodwr yn taro'r nod…

Fe wyddoch yn iawn, chwi loddestwyr craff, mai am Home, ym Mhenarth, yr ydw i'n sôn. Yn wir, dyma'r trydydd fwyty yn olynol i'r cogydd James






Sommerin, o Gaerleon yn wreiddiol, ei agor ym Mro Morgannwg. Wedi gadael The Crown at Whitebrook ddegawd yn ôl, agorodd fwyty yn ei enw ei hun ar esplanade Penarth yn 2014. Ond diolch i densiwn gyda'r landlord, serch blynyddoedd o lwyddiant mawr, caeodd y bwyty ar ddechrau'r pandemig, a ddaeth fel siom i nifer fawr. Ymhen misoedd fodd bynnag, agorwyd The Shed yn y Barri, gan brofi poblogrwydd mawr mewn cyfnod rhyfedd iawn. Dwi'n cofio mynd i ganolfan y Good Sheds fy hun pan gawsom deithio ychydig unwaith eto – ac roedd cawl cimwch The Shed yn falm yn wir, wedi misoedd yn fy nghegin fy hun! Ond tu ôl i'r llenni roedd y cogydd yn dal i ddelio gyda thrawma cau ei fwyty gwreiddiol, a hynny tra roedd ar ganol coginio cannoedd o brydau yn ddyddiol ar gyfer staff rheng flaen y GIG. Ond roedd cynllun ar waith, i agor bwyty newydd sbon, a dyna a fu yn wir, pan agorodd James a'i deulu 'Home'.

Mae'r enw yn dweud y cyfan i James Sommerin; dyma'r bwyty cyntaf mae e'n berchen ar bob rhan ohono ei hun. Mae hefyd yn dweud cyfrolau nad enw James sy'n hoelio'r sylw tro 'ma, gan mai partneriaeth yw'r busnes rhyngddo ef a'i wraig Louise, a hefyd ei ferch a'i gyd-gogydd, Georgia. Yn wir, mae'r ddau yn cyd-weithio ers ei ddyddie yn y Whitebrook, pan fuodd hi'n cynorthwyo fel plentyn ar 'brofiad gwaith'. A'r ddau sy'n cyd-greu, ac yn gweini, ym mwyty Home – fel yn achos Juan Mari ac Elena Arzak yng Ngwlad y Basg. Ond dyna ddigon am y cefndir... sut le yw bwyty Home? Es i yno yn ystod y gaeaf ar ran Croeso Cymru. Ac i fod yn hollol deg, wna'i ddim sbwylio gormod o''r syrpreis, gan fod elfen o hud a lledrith, a dirgelwch yn rhan o atyniad Home. Fel y gwŷr pawb sy'n cerdded heibio, does dim modd 'pip-o' trwy ffenest Home. Mae llenni llwyd moethus yn cynnal naws o breifatrwydd – tra hefyd yn creu cryn chwilfrydedd. Ond unwaith i chi ganu'r gloch, fe godir y llen, a cewch weld beth yn union yw beth...

Os gofiwch chi fwyty Etc, oedd yno o'r blaen, gwell 'binio' pob argraff a grewyd. Mae'r gofod yn hollol wahanol - yn dywyllach o lawer erbyn hyn. A symudwyd y gegin i fewn i'r stafell fwyta, i greu drama ddanteithiol dros ben. Nid 'adre' mo Home efallai i chi neu fi, ond dyma ble mae'r Sommerins yn eu helfen, wir. Bwydlen flasu dymhorol, 'syrpreis' aml-gwrs, am bris anrhydeddus sydd ar gynnig; £120 am swper wyth cwrs, ar y cyd â thameidiau bach blasus. Neu, os am ginio, ewch ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn, lle cewch 4 cwrs, ag ambell damaid, am £60.

Fel yn achos y bwyty blaenorol, mae'r tameidiau bychain yn wefreiddiol. Yn grefftus a gwreiddiol mae rhai o'r blasau'n ben-ffrwydrol. Ceir cyfeiriadau chwareus at draeth Penarth – fel 'wyau' a 'cherrig' glan-môr – ac at Gymru (menyn Bara Lawr a bara Felinfoel). Dadorchuddiwyd un o'r cyrsiau cynnar fel dewin uwch ei grochan; ac roedd blas hud a lledrith ar y pwdin bara sawrus. Ond nid popeth sy'n 'arallfydol'. Bydd ffyddloniaid y cogydd wrth eu boddau i glywed fod na un cwrs wedi'i ddilyn ers dechrau ei yrfa. Efallai nad yw 'ravioli pys' yn swnio fel dim byd, ond wir i chi, dyma'r nesaf peth at goflaid mewn powlen. Cynyddu wnaeth y ddrama erbyn diwedd y fwydlen, yn enwedig tua'r cwrs cig eidion. Mae'r cyfuniad o gig a nionyn a sudd mêr yr esgyrn yn diffinio blas 'umami' i'r dim. Ac 'ŵ, dere i mami!' oedd f'ymateb i'r pwdin, toesion ffres a baratowyd o'n blaenau.

Ydy, mae'n brofiad drud, mewn cymhariaeth â bwytai eraill; gwerth ei ystyried o bosib fel profiad i'w gynilo ar ei gyfer. Wedi'r cyfan, efallai nad ewch yno mond unwaith mewn bywyd... ac o leia - yn wahanol i fwytai Llundain - does dim rhaid teithio'n bell i'w gyrraedd. Mae'n ddefnyddiol, yn ogystal, fel cyd-destun i fwytai lleol eraill, sy'n medru denu dagrau i'r llygaid wrth i chi ddarllen eich derbyneb. Mae'r cogyddion yno'n gwybod mai cyrchfan arbennig iawn yw Home. Mae'n lysgennad rhyngwladol dros Gymru yn y bôn. Does dim cuddio na chywilyddio fod yr enw Sommerin o safon Michelin. Y prawf mawr ddiwedd mis Mawrth fydd gweld os byddant wedi cynnal y seren ar gyfer 2023. Cerwch yno, da chi, cyn hynny, i benderfynu dros eich hun. Home, 1 Royal Buildings, Penarth CF64 3EB; 02920 710686

*Bwytai Cymru a Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke, £9.99 yr un*

## Clwb Cymric yn "Cofio Cen"

Ar bnawn Sadwrn yr 28ain o Ionawr bu cyfle i gyn-chwaraewyr, a chwaraewyr presennol Clwb Pêldroed Cymric, Caerdydd, "Gofio Cen".

Byddai Cen Williams y fwy cyfarwydd i ddarllenwyr y *Dinesydd* (a *Golwg*) fel "Cen Cartŵn", a'i fynych gyfraniadau dros y blynyddoedd i'r papur bro a'r cylchgrawn wythnosol ar glawr i haneswyr y dyfodol ei gloriannu a'i ganmol.

Ond i Glwb Cymric, 'roedd yn un o'r chwaraewyr rheini a roddodd, ers cychwyn y Clwb yn nhymor 1968/69, flynyddoedd o wasanaeth ar y cae pêdroed, boed haul neu hindda, a hynny yn ei safle fel un o'r cefnwyr cadarn.

Cen fu'n gyfrifol am sicrhau bod y gyfrol *Cicio Ymlaen - Cronicl y Dathlu* wedi ei chyhoeddi i gofnodi 25 mlwydd oed Clwb Cymric yn 1994. 'Roedd ei sylwadau bachog, ei sgwigls a'i gartŵns yn gyfraniad gwerthfawr er sicrhau bod hanes cynnar y clwb ar glawr.

Fe'i collwyd o'n mysg yn ddisymwth iawn ar ddechrau'r cyfnod Cofid yn 2020, ac oherwydd y cyfyngiadau, ni fu cyfle i fynychu angladd na chynnal unrhyw goffad ohono ar y pryd.

Er unioni'r bwlch hwnnw, awgrymwyd y dylid coffau Cen mewn rhyw ffordd ymarferol, a chytunwyd y byddai'n briodol, o gofio'i swyddogaeth fel athro, i ddarparu set o ddillad pêldroed i dîm ieuenctid Clwb Cymric er cof amdano.

Addas iawn (a phroffwydol hefyd) fyddai hyn o gofio iddo ysgrifennu yng nghyflwyniad agoriadol *Cicio ymlaen* fel a ganlyn:-

"Er mai llyfr yn adrodd hanes y gorffennol ydy hwn, mae'r anogaeth i gicio ymlaen yn ysbrydoliaeth i'r genhedlaeth ifanc i chwifio'r faner ac i wynebu'r chwarter canrif nesaf gyda hyder, ac efallai sgidia' newydd."

Ar y Sadwrn penodedig ym mis Ionawr, yng nghwmni Owena, chwaer Cen, ac aelodau eraill o'r teulu (gweler y llun), cyflwynwyd y dillad i'r Clwb. Cofnodwyd y cyfan, ac fe'i darlledwyd fel eitem ar *Heno* ar y 1af o Chwefror, gydag Alun Williams, un o gyn-chwaraewyr y Clwb, yn cyflwyno. Tra bydd Clwb Cymric bydd cofio am Cen!



Teulu Cen

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH




Daeth ton o dristwch drosom ar y 5ed o Chwefror pan gawsom wybod am farwolaeth Moyra Owen, un o'n pileri dros amser maith. Bu ei ffyddlondeb cyson i oedfaon Bethel a'i pharodrwydd i ysgwyddo gwasanaeth yn amlygiad perffaith o ymateb iawn i'r rhybudd yn Epistol Iago (1,22), 'Byddwch yn weithredwyr y gair, nid yn wrandawyr yn unig…'. Roedd Moyra yn barod iawn ei chyfraniad i bob math o weithgarwch yn y capel, yn gyfeilydd os oedd angen, yn athrawes yn yr ysgol Sul, yn cyflwyno darlleniadau, trwm ac ysgafn, mewn oedfa. Roedd ganddi ysbryd rhadlon a ffraethineb difalais mewn sgwrs. Bu hi, gyda'i diweddar ŵr, Rowland, yn driw iawn ei gwasanaeth yn cynrychioli Bethel mewn cyfarfodydd allanol o gyrff amrywiol. Gwelwn ei heisiau yn fawr tra'n diolch am fod yn ei chwmni ac elwa o'i phrofiad.

Yn ein hoedfa ar Ionawr 29ain cawsom ein tywys gan ein cyfaill Rhodri at ystyriaethau parthed y berthynas rhwng ein crefydd a'n hiaith, Cristionogaeth a'r Gymraeg. Dechrau ei daith oedd geiriau ein gweinidog yn ei weddi yn yr oedfa ar y Sul blaenorol, yn dilyn myfyrdod Kevin ar hanes Tŵr Babel (Genesis 11) a'r ieithoedd amrywiol. Gydag enghreifftiau priodol o emyn a llun cawsom blethiad cain gan Rhodri o helynt a her y Gymraeg dros ganrifoedd, er enghraifft, sut y bu hi'n gyfrwng goroesiad y genedl yn dilyn cyfnod o 'hil-laddiad' gan Robert Ley, a fu'n Archesgob yn Eglwys Lloegr. Chwiliwch yr hanes.

Ar Sul Chwefror 12 fed tynnodd ein gweinidog ein sylw at y testun yn Luc 13, 1- 5 lle ceir trafodaeth rhwng Iesu a rhai Iddewon ar y cwestiwn oesol; a ydyw pobl sy'n dioddef mewn trychineb naturiol yn cael eu cosbi oherwydd gweithrediad drwg ganddynt yn eu gorffennol. 'Na' oedd ymateb cadarn Kevin. Daeargryn Twrci a Syria oedd y cyd-destun. Atgyfnerthwyd y myfyrdod yn yr emynau 799, 683 a 735.

Bu sylw diweddar yn y wasg am benderfyniad Undeb Rygbi Cymru i wahardd y gân Delilah mewn gemau yn y Stadiwm Cenedlaethol. Bu hyn yn gyflwyniad i fyfyrdod Kevin ar hanes Samson a Delila (Llyfr y Barnwyr, Pennod 16). Prif bwyslais y bregeth at ein cyflwr ni heddiw oedd y sylw ar weddi Samson mewn cyfyngder, 'cofia fi', 'nertha fi'.

Cawsom agoriad blasus i Dymor y Grawys yn y noson grempog. Mil diolch i Emma, Sandra, Sianmeinir, Nefydd a Dean am eu gwasanaeth yn y gegin yn coginio ac yn gweini.

## BETHEL, RHIWBEINA

Wedi seibiant byr dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, daethom ynghyd unwaith eto ar Ionawr 8 pan oedd yr oedfa dan arweiniad y Parch. Dafydd Owen.

Yn ystod mis Ionawr cawsom hefyd gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Eirian Rees, Mansel Jones ac Emlyn Davies. Ac ym mis Chwefror cawsom gwmni Helen Jones a Lona Roberts.

Ar Chwefror19 ein gweinidog oedd yn arwain y gwasanaeth ac roedd yn bleser i weld cymaint o deulu a ffrindiau Elliw ac Oswyn Richards yn y capel ar achlysur bedydd eu hŵyr. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Lois, Trefor a'r mab bach newydd, Tomi.

## EGLWYS DEWI SANT

**Datganiad Organ**

Roedd nifer dda yn bresennol yn yr eglwys ar Chwefror y 10fed ar gyfer datganiad graenus a gafaelgar ar yr organ gan David Geoffrey Thomas, Organydd Plwyf Eglwys Gadeiriol Llandaf. Hwn oedd y cyntaf mewn cyfres o ddatganiadau misol o dan nawdd Cardiff Organ Events. Bydd y nesaf dydd Gwener Ebrill y 14eg. am 1:15. Y datgeinydd fydd Jeffrey Howard, Organydd Eglwys Gadeiriol Metropolitanaidd Caerdydd.

**Coffi a Chlonc**

Bore Sadwrn y 18fed o Chwefror, cafwyd sesiwn Coffi a Chlonc rhwng 10:30 a 12:00 yn neuadd yr eglwys â nifer dda wedi dod ynghyd. Fe fydd y nesaf fore Sadwrn, y 18fed o fis Mawrth.

**Ffenestri'r Gangell**

Daeth y gwaith o adnewyddu ffenestri'r gangell i ben ac maen nhw yn ôl yn eu lle ac yn edrych yn hyfryd.

**Dydd Mercher y Lludw**

Gyda'r gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid arferol fore Mercher yr 22ain o Chwefror ond gan ychwanegu'r drefn ar gyfer dydd Mercher y Lludw ac arnodi lludw ar dalcen i ddangos edifeirwch, rydyn ni wedi cychwyn ar dymor Y Garawys.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhelir yr Ysgol Sul ar Sul 1af. a 3ydd. Sul y mis a gwasanaeth aml-oed ar 2il. Sul y mis.

**Côr yr Eglwys**

Mae Côr yr Eglwys wedi ailgychwyn ymarfer ar nosweithiau Mawrth am 6:00 p.m. Rydym yn chwilio am aelodau newydd sy'n mwynhau canu cerddoriaeth eglwysig mewn côr bach pedwar llais. Os oes gennych ddiddordeb, mae croeso ichi ddod i un o'r ymarferion.

**Gwasanaethau**

Bydd gwasanaeth yn yr eglwys bob dydd Sul am 10:30 a.m ac am 6:00 p.m a gwasanaeth am 8:00 a.m ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis. Gweinyddir y Cymun Bendigaid bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

**Cydymdeimlwn**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Jane Roberts a'r teulu oll ar farwolaeth ei mam Nia Roberts, yn ddiweddar.

## EGLWYS Y CRWYS

Llongyfarchiadau cynnes i Emyr a Myra Jenkins ar ddod yn hen daid a nain i Llywelyn Rhys, mab bach Gareth ac Undeg Marshall. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Bu farw Mrs. Marjorie Pierce, gweddw yr Athro Gwynedd Pierce. Mae'n cydymdeimlad gydag Emyr, Iolo a'u teuluoedd.

Mae nifer o aelodau a fu mor ffyddlon yn yr oedfaon bellach yn gaeth i'w cartrefi neu mewn Cartrefi Gofal. Dymunwn yn dda iddynt. Rydym yn gweld eu heisiau ac yn diolch amdanynt.

Cynhaliwyd noson Cawl, Cân, a Chacen, o dan ofal Pwyllgor Cymorth Cristnogol a'r Gymdeithas, yng nghwmni Côr CF1 gyda'r elw yn mynd tuag at Apêl Hadau Gobaith. Diolch i'r Côr am eu cyfraniad ac i Siân Griffiths a Cerian Angharad am y trefniadau.

Bydd y Gymdeithas Ddrama yn cyflwyno pedair drama, ar ffurf cyfweliadau, o waith William Owen, yn ystod mis Mawrth. Diolch i'r Cyfarwyddwr, Robin Owen, am ei holl waith.

Mae croeso i bawb i ymuno yn y gwasanaethau yn Y Crwys. Dyma'r drefn am fis Ebrill:

Ebrill 2il – Y Parch Denzil John gyda'r oedfa hwyrol yn Oedfa Gymun

Ebrill 9fed (Sul y Pasg) – Bore: Parch. Robin Samuel; Hwyr: Mrs. Margaret Jones

Ebrill 16eg – Bore: Parch. Hywel Richards; Hwyr: Parch. Alun Tudur

Ebrill 23ain – Parchedigion Ifan a Catrin Roberts

Ebrill 30ain – Yr Athro Ddr. John Tudno Williams

## SALEM, TREGANNA

Mae mor braf gweld y capel yn brysur eto bob wythnos, a chynulleidfa dda yn troi i mewn atom bob Sul, ac rydym yn falch o groesawu cynifer o blant i'r Ysgol Sul.

Mae'r blychau casglu ar gyfer y Banc Bwyd yn eu lle arferol yn y cyntedd, felly cofiwch eich cyfraniadau.

**Clwb Brecwast**

Cofiwch am y Clwb Brecwast a gaiff ei gynnal yn rheolaidd. Mae manylion y dyddiadau i'w cael ar y wefan, o dan "Clwb Brecwast" (www.capelsalem.org/clwb-brecwast)

**Cwtsh Cynnes**

Cofiwch am y "Cwtsh Cynnes" bob bore Llun os hoffech chi ychydig o gwmni a chynhesrwydd. Mae drysau Cwtsh Cynnes Salem ar agor rhwng 09.30am ac 1.00pm ac yn gyfle i ddod am sgwrs, i gael cornel dawel i weithio, i ddarllen, i wau – beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd. Rydym yn croesawu pawb, boed yn aelod neu ddim, i arbed rhywfaint ar filiau tanwydd a rhoi'r byd yn ei le dros baned neu mewn blanced.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Dyma ni yn neugain diwrnod y Grawys eto, yn gobeithio adnewyddu'n bywyd ysbrydol drwy weddi ac ympryd. Mae llyfrynnau *Walk with Me* ar gael yn ystod y Grawys bob blwyddyn yn yr eglwysi, ac eleni mae'r myfyrdodau wythnosol wedi'u seilio ar y salmau – llyfryn bach defnyddiol ar gyfer y cyfnod arbennig hwn.

Nos Sadwrn 25 Chwefror, cynhaliwyd Gwasanaeth Eciwmenaidd o Weddi dros Wcráin yn yr Eglwys Gadeiriol, union flwyddyn ar ôl cychwyn y rhyfel yno. Ymunodd Esgob Nowakowski, Esgob ar Eparchaeth Gatholig Wcráin y Teulu Sanctaidd yn Llundain ag Archesgob Mark O'Toole. Daeth y ddau arweinydd a'r gynulleidfa ynghyd mewn golau cannwyll i weddïo dros heddwch yn y wlad ac i gofio'r rhai sydd wedi dioddef.



Mae eicon cyfarwydd Ein Harglwyddes o Wcráin i'w gweld mewn llawer o'n heglwysi ers dechrau'r rhyfel, a byddwn yn gweddïo o'i flaen yn gyson. Mae'r gwreiddiol yn dyddio'n ôl i'r ddegfed ganrif ac yn adnabyddus drwy'r byd.

Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gydag Offeren yn Eglwys Teilo Sant am 6 o'r gloch ar Fawrth y cyntaf. Ry'n ni'n diolch yn fawr i'r Tad Peter Davies am ei weinidogaeth i ni yn yr Offeren, a hyn ar ben ei waith fel Caplan yn ysbytai'r Waun a Llandoche.

Offeren fisol: dydd Sul 26 Mawrth am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul mis Mawrth (tymor ysgol) (10:30 a.m.):

12 - Sul y Cyfundeb: yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd

19 – Delwyn Sion

26 – Oedfa Ardal Gwaelod-y-garth a Ffynnon Tâf

"Y funud honno buodd daeargryn mawr a chafodd un rhan o ddeg o'r ddinas ei dinistrio. Cafodd saith mil o bobl eu lladd gan y daeargryn. Roedd pawb oedd yn dal yn fyw wedi dychryn am eu bywydau…" [Datguddiad 11:13]

"Fuodd yna erioed ddaeargryn mor ofnadwy yn holl hanes y byd – roedd yn aruthrol!" [Datguddiad 16:18]

'Does dim rhyfedd bod ein sylw wedi ei hoelio ar y digwyddiad erchyll yna ar y ffin rhwng Twrci a Syria ers y 6ed o Chwefror, gyda'r cyfan yn cael ei fesur yn ôl rhifyddeg yn anad dim.

Miloedd o adeiladau wedi eu dinistrio. Degau o filoedd o gyrff wedi eu casglu hyd yma (ac yn debygol o gynyddu yn sylweddol fel yr a'r dyddiau a'r wythnosau nesaf 'ma heibio) a 51,900 o bobl eraill wedi eu hanafu. A'r difrod tebygol yn cael ei amcangyfrif rhwng £28.8 biliwn a £41.2 biliwn.

A chofier bod dros 4 miliwn o boblogaeth gogledd Syria eisoes yn wynebu amgylchiadau byw anodd oherwydd y rhyfel cartref a'r erlid oedd arnynt – 3 miliwn ohonynt wedi ffoi o'u cartrefi – 80% ohonynt yn ferched a phlant.

Byddai £30 yn darparu blancedi i gadw chwech o bobl yn gynnes, a £100 yn ddigon i ddarparu lloches dros dro i bedwar teulu. Fe allwch gyfrannu drwy wefan DEC Cymru – www.dec.org.uk – neu yn siop Oxfam ar Heol Eglwys Fair.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

### Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 5, 12 (18:00) a 19 Mawrth. Cynhelir oedfa gymun nos Sul, 5 Mawrth. Bydd cyfle i'r eglwys ymuno ag eglwysi eraill y Cyfundeb fore Sul, 12 Mawrth yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd. Byddwn yn croesawu'r Parchg Glyn Tudwal Jones fore Sul, 26 Mawrth, ac yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Tabernacl am 18:00. Yn ystod oedfaon 5, 19 a 26 Mawrth y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

### Gweithgarwch y mis

Mae gweithgareddau mis Mawrth yn cynnwys noson o ddefosiwn a chawl i nodi dydd Gŵyl ein Nawddsant a chyfarfodydd PIMS (nos Fercher, 8 Mawrth a nos Lun, 20 Mawrth am 19.00). Bydd cyfle i fwynhau Coffi a Chlonc fore Iau, 2 Mawrth (10:30 – 12:30). Bydd noson ffilm arall nos Fercher, 15 Mawrth (19:00); gyda Sant Padrig y byddwn yn ciniawa fore Gwener, 17 Mawrth (11:30). Bydd dau gyfarfod o Bethania (14 a 21 Mawrth) am 19:30. Bydd y Gymdeithas yn edrych ymlaen at noson o adloniant cerddorol yng ngwmni Marged a Steffan Jones ar 7 Mawrth, ac at y cinio Pen Tymor yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar 28 Mawrth yng ngwmni Gill Griffiths, ein gwestai. Bydd cyfle i gymdeithasu ymhellach yn Koinonia yn dilyn oedfa hwyrol 19 Mawrth. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis.

## EBENESER

### Dymuniadau Da

Er bod deufis bellach wedi pasio ers i John Hayes ymddeol fel Pennaeth Ysgol Plasmawr; ddiwedd Rhagfyr 2022, ar ôl 15 mlynedd o waith clodwiw a chaled, dydy hi ddim yn rhy hwyr i ddiolch iddo am arwain ysgol mewn cyfnod a fu ar brydiau'n eithriadol o heriol, ac am ei gyfraniad i addysg Gymraeg yn y brifddinas. Braf yw gallu dweud i John a Bethan fynd ar wyliau i gyfandir Affrica am dair wythnos ddechrau'r flwyddyn. Dychwelwyd gydag atgofion lu a lliw haul heb ei ail. Gobeithiwn, gael peth o'r hanes maes o law yn y Gymdeithas. Pob llawenydd iddo ef a Bethan yn ystod y blynyddoedd nesaf.

### Tir Dewi

Yr elusen hon gefnogwyd ar gyfer 2022. Elusen bwysig sy'n cefnogi ffermwyr a'u teuluoedd mewn amrywiol ffyrdd. Gallwch ddarllen mwy am eu gwaith wrth fynd i'w gwefan www.tirdewi.wales/cy/hafan/. Er bod ychydig o arian i ddod mewn eto o gasgliadau cadw mi gei mae'r cyfanswm hyd yn hyn oddeutu £3300. Braf fydd gallu cyflwyno'r arian i'r elusen hon maes o law.

### Elusennau 2023

Yn ystod y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn rydym am gefnogi prosiectau Tearfund. Mae Cynan Llwyd, Cynrychiolydd Tearfund Cymru yn aelod gyda ni a'r bwriad oedd ei gael i siarad am y gwaith. Oherwydd galwadau eraill methodd ddod i siarad â ni wyneb yn wyneb ond cawsom gyflwyniad fideo fore Sul, 12fed o Chwefror am y gwaith sy'n cael ei wneud, yn dilyn daeargrynfeydd Twrci a Syria. Ei bwyslais ef oedd mai arian sydd ei angen fwyaf ar hyn o bryd. Eisoes roeddem wedi penderfynu gwneud casgliad brys dros dri Sul i gefnogi'r gwaith anodd iawn o estyn cymorth i sefyllfa mor enbydus. Ym, mis Mehefin eleni bydd Undeb yr Annibynwyr yn lansio Apêl Colombia mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol, fydd yn parhau am flwyddyn. Bydd Ebeneser yn cefnogi'r apêl hon.

### Gwahoddiad

Mae Ebeneser yn cyfarfod ar y Sul mewn tri lleoliad sef, Canolfan yr Eglwys Newydd am 10.00; Capel y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd am 3.00 ac Angor Grangetown yng Nghanolfan Reach am 4.30 pob pythefnos. Rhagor o fanylion ar gael ar ebeneser.cymru.



## Agor y Llyfr

Dechreuodd gwaith tîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd am 2023 yn Ysgol Glan Morfa ddechrau Chwefror. Cyflwynwyd hanes Joseff y Breuddwydiwr i'r disgyblion ac yn y llun fe welwch Jacob yn sefyll gyda rhai o'i feibion, gan gynnwys Joseff. Yno hefyd mae'r masnachwyr brynodd Joseff am ugain darn o arian a'i gymryd i'r Aifft fel caethwas. Trwy'r stori rhannwyd neges am beidio â bod yn genfigennus, ac anogwyd y plant i fod yn barod i rannu gyda phlant eraill.

Mae'r tîm yn barod iawn i dderbyn gwahoddiadau i ymweld ag ysgolion cynradd Cymraeg eraill Caerdydd. Cysylltwch â'r Parch. Alun Tudur (atudur@gmail.com) os am drefnu dyddiad. Felly hefyd os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r tîm oherwydd o gael mwy o aelodau, efallai y bydd modd cael 12 o feibion Jacob y tro nesaf yn hytrach na dim ond 4!



## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Dai a Nia Boobier wrth iddynt groesawu ŵyr arall i gorlan y teulu. Ganed William Alexandra i Rhidian a'i gymar Margherita.

Hefyd ganed Marged i Elin a Rhys Williams. Mae hyn yn golygu bod gan Dafydd a Jen Williams bellach saith o wyrion.

Bu farw Jonn Cosslet yn ddiweddar. Er nad oedd yn aelod yn y Tabernacl, roedd gan y capel le yn ei galon. Cofiwn am ei wraig Myfi fel un o aelodau mwyaf egniol yng ngwaith yr eglwys.

Diolch i Denzil John, Eirlys Jones, Huw Thomas a Lona Roberts am eu cyfraniadau i'r Cwrdd Canol Wythnos.

Cawsom ymateb da i'r Sesiwn Cymorth Cyntaf o dan arweiniad Sian E Thomas. Diolch iddi am ei chyfraniad dros y blynyddoedd i'r achos pwysig hwn.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddianus yng nghartref Eluned ac Owen Rook ganol Mis Chwefror.

Fe ddaeth aelodau'r Clwb Darllen at ei gilydd ddiwedd y mis i drafod y llyfr *Adar Mud* gan Sian Rees. Llyfr yw hwn sydd wedi'i selio ar ddigwyddiad mewn pentref Ffrengig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Erbyn hyn mae'r Ganolfan Glyd yn gweithredu'n llwyddianus bob bore Sadwrn, prynhawn Sul ac amser cinio dydd Mercher yn y Tabernacl. Mae croeso i chi ymuno i roi help llaw. Rydym hefyd wedi cofrestru'r Ganolfan Glyd fel 'Charity Café', sy'n rhoi cyfle i bobl sydd eisiau cwmni sgwrsio ag eraill.

Llinos Metcalf oedd wrth y llyw yn y Gymdeithas am Ddau. 'Teithio yn Cuba' oedd ei thestun y tro hwn.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i'r oedfaon yn ystod mis Chwefror – ein Gweinidog y Parchg. Ddr. Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, Dafydd Huw a'r Parchg. Owain Llŷr Evans.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Lois ac Ura ar eu dyweddïad. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

**Pregethwr Gwadd**

Yn ddiweddar daeth Meirion Thomas sy'n weinidog yng nghapel Malpas Rd. Casnewydd atom fel pregethwr gwadd. Yn y bore a'r hwyr aeth â ni drwy stori hyfryd llyfr Ruth. Yn y bore canolbwyntiodd ar arweiniad ac adnoddau Duw ac yn y nos ei amddiffyn a'i addewid. Atgoffodd ni bod Ruth yn ymddangos yn rhestr achau Iesu Grist ym mhennod gyntaf efengyl Mathew.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

'Rydym mor falch bod Wyn James wedi gwella digon i ail gydio yn y sesiynau gwerthfawr a phoblogaidd yma. Byddant yn ail ddechrau 2 Mawrth am 8 o'r gloch ar Zoom. Mae croeso mawr i ymuno â'r sesiynau drwy gysylltu : JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Paned a Sgwrs**

Yn ddiweddar cawsom y pleser o gwmni Nerys King yn sôn am y gwaith mae hi a'i gŵr Tom yn ei wneud yn Pattaya, gwlad Thai, gyda'r merched sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yno. Maent yn gweithio yng nghanolfan Tamar gan geisio cynnig gwaith amgen i'r merched yn ogystal â chynnig help ysbrydol iddynt. Mae Nerys, Tom a'u mab bach Efan nôl gartref yng Nghaerdydd am dri mis.

Cawsom ymweliad hefyd gan Wyn ac Angela Evans o eglwys yr Heath yn sôn am eu gwaith yn ymweld â ffermydd yn y gorllewin gan geisio sôn am y gobaith sydd i'w gael yn efengyl Iesu Grist. Fel y gwyddom mae cymaint o gapeli cefn gwlad Cymru bellach wedi cau a'r bobl heb gyfle i glywed yr Efengyl. Clywn yn aml hefyd am y pwysau mawr sydd ar ffermwyr yn y dyddiau hyn. Dymunwn fendith ar y gwaith pwysig a heriol yma.

# Swydd newydd bwysig i Ficer Eglwys Crist ger y Llyn

Penodwyd y Canon Dr Trystan Owain Hughes sydd yn Gymro Cymraeg ac yn gyn-ddisgybl Ysgol y Creuddyn ac yn wreiddiol o Benmaenmawr yn Gyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth gyntaf yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd yn helpu i ddatblygu gweinidogaeth ar draws Esgobaethau Cymru mewn rôl newydd allweddol yn ôl cynlluniau twf a datblygiad yr Eglwys yng Nghymru.



Mae Trystan yn briod â Sandra (sy'n wreiddiol o'r Almaen) ac mae ganddynt dri o blant. Mae Macsen (yr ieuengaf) yn ddisgybl yn Ysgol Y Berllan Deg ac yn beldroediwr talentog. Mae tair iaith yn cael eu siarad yn Y Ficerdy.

Yn ystod y deg mlynedd diwethaf bu Trystan yn diwtor diwinyddiaeth yng Ngholeg Sant Padarn ac yng Ngholeg y Bedyddwyr yn ogystal ag arwain eglwys lewyrchus (Eglwys Crist sydd ger y llyn), gan gynllunio a goruchwylio twf a datblygiad sylweddol yn yr Eglwys.

Yn awdur toreithiog, mae Dr Trystan Owain Hughes wedi cyhoeddi chwe llyfr ar ffydd ac wedi cyflwyno sgyrsiau yn rhyngwladol. Bu'n *llais rheolaidd ar y cyfryngau, yn cynnwys cyflwyno* Prayer for the Day, a *Pause for Thought*. Cafodd sawl cyfweliad hefyd ar *Bwrw Golwg*.

Mae hefyd yn ysgrifennu blog rheolaidd yn www.trystanowainhughes.wordpress.com.

Dymunwn yn dda i Trystan mewn swyddogaeth arloesol a heriol.

*Gwilym Wyn Roberts*

# Pobol y Rhigwm

Ar ôl tywallt fy nicter dros ddiffyg mydryddiaeth, a chystrawen wallus yn y golofn hon fis diwetha, gall ei darllenwyr selog (a'r cystadleuwyr yn benodol) ollwng ochenaid o ryddhad y mis hwn, achos fe gafodd y beirniad ei blesio! Pennill pedwar llinell ar y testun 'afon' a osodwyd a chafwyd gwreiddioldeb ac ôl meddwl yn y saith ymgais a ddaeth i law.

Er nad oes gofyn am lynu wrth batrwm penodol o sillafau, hyd llinellau, ac ati mewn rhywbeth 'pennill pedair llinell' (oni bai ei fod e'n englyn,) ro'dd siâp go lew ar fydryddiaeth pob un a'r rhigymwyr wedi saernïo eu gwaith yn ofalus. Da iawn wir! Mae'r pedwar a ddaeth yn agos ati yn haeddu cael llwyfan:

Troelli'n ddioglyd tua therfyn ei thaith
Mae'n llifo'n fyfyriol dros gyfnod maith
Be welaist? Be glywaist?....yn lleddf a llon
Mae canmil cyfrinach ynghlo yn hon.
*Dwfn*

Arhosais am ennyd i wrando, ddo'
Wrth grwydro'n hamddenol ger Bari'n Y Fro
Mae bwrlwm afon, ei throelli a'i throi
Fel bardd yn ymrafael a geiriau i'w cloi.
*Nantlais 1*

'Cawn frechdan fan hyn' meddais i wrth y gŵr
Ar lan yr afon ble llifai'r dŵr
Efallai daw awen ag odl neu glo
Am bennill neu englyn i bapur Y Fro!
*Nantlais 2*

O dan y bont a dros y rhyd,
Mae'r dwr yn llifo, llifo o hyd,
Weithiau'n rhedeg, weithiau'n loetran,
Pwy a ŵyr beth yw ei hoedran.
*Briwnant*

Dyma'r tri chynnig a gafodd yr argraff bennaf ar y beirniad y tro hwn, y tri yn ddigon gwahanol i'w gilydd, mewn gwirionedd (peth da!):

Llifo, llifo, llifo'n ddi-baid,
Ymlaen, ymlaen mewn herc, cam a naid,
Dros gored, dan bont, byrlymu mae'n rhaid,
Cychwyn fel ŵyr bach, gorffen fel taid!
*Trobwll*

Mae rhywbeth gwahanol, trawiadol am hwn a dyna sut mae dal sylw'r beirniad! Mae rhywun yn synhwyro cwrs yr afon yn y dair llinell gynta a defnyddiwyd y dechneg o ailadrodd yn effeithiol – gall hynny syrthio'n fflat ar adegau ond wrth gyfleu rhediad di-stop afon, mae'n dechneg sy'n hawlio'i lle. Uchafbwynt y pennill heb os yw'r llinell glo. Dyma'r tro cynta imi glywed afon yn cael ei disgrifio yn y modd hwn ond mae'n ddisgrifiad campus – y nant ifanc, llawn cyffro sy'n troi'n grynswth oedrannus o ddŵr dwfn, yn union fel llinell amser bywyd ei hun. Grêt, Dyma epigram go iawn a sylwais bod yr ymgeisydd hwn wedi cadw at yr un odl drwy'r pennill – rwy'n hoffi pethau felly!

I'r afon aeth i rwyfo – a finnau
a ofynnodd iddo:
"Welaist gyflwr y dŵr?" "Do,"
atebodd. Bet, rwy'n tybio.
*Y Ceidwad Loc*

Dyma'r unig ymgeisydd a gynigiodd englyn, ac mae e'n englynwr medrus. At hynny, mae'n englyn ysgafn yn y traddodiad Eisteddfodol ac nid ar chware bach mae llunio un o'r rheini. Mae'r gynghanedd yn gwbwl gywir (ac mae 'na ddefnydd dyfeisgar o'r gynghanedd Sain yn llinell tri). Yn anad dim, mae e'n englyn sy'n rhedeg yn esmwyth ac sy'n cynnwys sgwrs naturiol yn yr esgyll, digon anodd yw peth felly i gynganeddwyr. Fy unig broblem yw nad wy'n siŵr fy mod i cweit wedi deall yr ergyd ar y diwedd! Rwy'n ei ddeall i'r dim hyd at sill 26. A ydw i'n camddehongli, wedyn, trwy ddweud nad oedd y dŵr mewn cyflwr rhy ddymunol ac mai canlyniad taro bet â rhywun oedd ceisio rhwyfo ynddo (neu drwyddo)? Neu ai person yw Bet? Efallai bod ceisio cywasgu'r stori i ddeg sill ar hugain wedi cael y trecha ar y Ceidwad Loc! Na ddigalonner, mae'n sicr yn haeddu'r ail safle ar sail crefft yn unig.

Afon Taf sy'n llifo'n araf,
Llifo'n gyson, ungyfeiriol.
Boed ein rhodiad beunydd ninnau
Fod heb ruthr anystyriol.
*Pererin*

Ymgais Pererin yw pennill mwya crefftus y gystadleuaeth ac mae'n ardderchog. Yn ei hanfod, mae'n orffenedig, fedra i ddim meddwl am unrhyw ffordd i wella arno. Mae'n darllen yn gwbwl esmwyth gyda'r sillafau'n disgyn i'w lle'n ddiymdrech. Does dim gwastraff geiriau yma – i'r gwrthwyneb, mae Pererin wedi dethol pob gair at ddiben. Fel Trobwll, mae Pererin yn delweddu'n gryf ond yn fwy na hynny, mae'n cyfleu naws yn rhagorol. Yn y ddwy linell gynta, bron y gallwn deimlo hynt pwyllog yr afon, mae yna urddas iddi a'r dechneg o ailadrodd 'llifo' (mewn ffordd gynnil, tuag at ddiwedd llinell un a dechrau llinell dau) yn ychwanegu at y portread. Mae gwarineb yr afon yn cyferbynnu'n wych gyda 'rhuthr anystyriol' bywyd pob dydd yn y ddwy linell glo. Fe welwn y torfeydd yn brysio o le i le, heb sylwi ar yr hyn sydd o'u cwmpas, mewn cyferbyniad llwyr â thaith hamddenol yr afon a gellir synhwyro ysfa Pererin i fod yn fwy fel honno. Papur bro'r brifddinas yw'r *Dinesydd*, wrth gwrs felly mae'n bosib iawn mai dewis diofyn oedd afon Taf, ond tybed a oedd dewis yr afon sy'n llifo ger rhai o balmentydd a strydoedd prysura'n gwlad yn fwriadol?

Dichon hynny, ond mae e'n bendant yn ddewis sy wedi gweithio'n rhagorol. Disgyblaeth a dawn dweud Pererin sy'n mynd â hi y tro hwn. Wedi dweud hynny, diolch yn fawr i'r Ceidwad Loc am englyn ysgafn cywir a chrefftus ac yn wir, diolch am saith pennill sy, yn eu ffyrdd eu hunain, wedi fy argyhoeddi.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Chwefror**
**Gwen Emyr, Radur**

**Cystadleuaeth mis Mawrth**
**Triban neu englyn:**
**Hanner canrif o'r Dinesydd**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mawrth at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Mercher, 5 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Elin Wyn am Daith Patagonia er budd Marie Curie, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Gwener, 7 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Carwyn Graves ar y testun 'Cennin a Chig Oen? Golwg Newydd ar Fwyd Cymru'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10. Y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3.00 (ond yn rhad i aelodau). I ymaelodi neu i dderbyn y ddolen Zoom ar gyfer cyfarfod unigol, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 11 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Dr Dylan Foster Evans ar y testun 'Hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd hyd at 1914', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Llun, 17 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Geraint Lewis, y cerddor, cyfansoddwr, darlithydd a beirniad cerdd, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mercher, 19 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Kathy Lye am 'Age Cymru', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Gwener, 21 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Gareth Williams ar y testun 'Angau yn y Prynhawn', yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 22 Ebrill**
Noson elusennol er budd Cymdeithas y Deillion Caerdydd, yng Nghlwb Golff Cyncoed am 7.00pm. Bwffe ac adloniant gan Siân a Trystan Francis. Tocynnau (£25 yr un) ar gael gan Gwilym Wyn: serenagwill@btinternet.com; 07968-463737.

**Sadwrn–Mercher, 22–26 Ebrill**
Cymdeithas Carnhuanawc. Taith i Fadrid. Manylion pellach: cymcarnhuanawc@gmail.com.

**Llun, 24 Ebrill**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Jane Aaron am Granogwen. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur ar**
**Yr Athro E. Wyn James,**
**16 kelston Road,**
**Yr Eglwys Newydd, Caerdydd,**
**CF14 2AJ**
**029-2062-8754;**
**JamesEW@caerdydd.ac.uk**

---

## Pererindod i Soar y Mynydd
## Mehefin 24/25, 2023


**Aros yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri**

**Sadwrn, Mehefin 24:**
**Gadael Gerddi Soffia am 9.30 bore Sadwrn. Galw ym Mrynaman tua 11.15 am baned a sgwrs fer ar hanes yr ardal. Ymweld â chartref Williams, Pantycelyn. Sgwrs am Meddygon Myddfai ar ôl cinio nos Sadwrn.**

**Bore Sul:**
**Teithio heibio Llyn Brianne i Soar y Mynydd erbyn 2 y pnawn.**

**Cinio am 5 y.h. yng ngwesty enwog y Plough, Rhosmaen, Llandeilo. Cyrraedd Caerdydd tua 9 y.h.**

**Manylion pellach: Gwilym Wyn Roberts.**
**07968 463737 serenagwill@btinternet.com**



# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar Chwefror 15fed croesawyd Tristan a Siân Francis, gŵr a gwraig boblogaidd o Rhiwbeina, i'r Aelwyd ym Methel, Rhiwbeina. Mae rhieni plant lleol yn gwerthfawrogi cyfraniadau y ddau mewn clybiau wedi ysgol a hefyd hyfforddi plant ym myd cerddoriaeth mewn clybiau gwerin.

Cyflwynwyd llawer math o gerddoriaeth eclectig i'r aelodau mewn unawdau a deuawdau a Siân yn cyfeilio. Ymunodd pawb mewn llawer cân – e.e. 'Cân yr Arad Goch', 'Tyrd yn Ôl' (Mary Hopkin), yr emyn 'Gwahoddiad', 'Chwarae'n troi Chwerw' (Caryl Parry Jones) a'r 'Deryn Du a'i Bluen Sidan'.

Hefyd clywid darnau clasurol a gwerin amrywiol. Deallir eu bod yn perfformio mewn cyngherddau, priodasau a chymdeithasau yn gyson.



Cytunodd pawb iddynt fwynhau cyngerdd gofiadwy iawn gan y ddau!

Cyfarfod nesaf:- Mawrth 15fed - Bore Cymdeithasol; Mawrth 29ain - Siaradwraig - Ann Mears. Y ddau ym Methel, Rhiwbeina am 11.00 y bore.

## Cadair Eisteddfod Brynberian i Hannah Roberts

*Llongyfarchiadau mawr i Hannah Roberts ar ennill cadair arall. Dyma ei cherdd fuddugol ar y testun 'Yfory'.*

**YFORY**

Yno,
mae goleuadau'r sêr
ar goeden Nadolig y nos
yn wincio'n wên i gyd.

Oddi tano,
mae blwch yn barod
wedi'i lapio ar gyfer Gŵyl.

Mae carolau'r cosmos yn canu,
seiniau dirgel y gofod,
plygain y planedau,
yn Holstaidd o bêr.

Wrth i Helios
yn ei golgyn oren
ddringo i do'r cefnfor;
o'i sach serchog,
gesyd barsel llachar ar garped y gorwel,

A bysedd rhosynnog y bore bach
yn datod clymau cyfrinach,
yno,
mewn papur pinc pert
mae "Yfory'n" cwato,
yn wên o wrid,
yn "bresant" bore'r ŵyl
i bawb.

## Anrheg Penblwydd i Elinor Bennett

Rwy'n siwr bod y mwyafrif ohonom yn gyfarwydd iawn â'r cyfraniad aruthrol a wnaethpwyd dros y degawdau i'n diwylliant cerddorol yng Nghymru gan y delynores Elinor Bennett. Ar yr un pryd, mae Elinor yn bresenoldeb mor ifanc ac afiaethus ei hysbryd fel y bydd llawer - fel fi - yn synnu o ddeall y bydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ym mis Ebrill eleni.


Fel modd o ddathlu'r garreg filltir arbennig ac i ddangos ein gwerthfawrogiad o'i gwaith fe benderfynwyd comisiynnu portread ohoni gan ein pennaf beintiwr portreadau, sef David Griffiths o Benylan. Canolfan Gerdd William Mathias yn y Galeri yng Nghaernarfon - a sefydlwyd gan Elinor yn 1996 - fydd y man lle gobeithiwn ddadorchuddio'r portread a'i gyflwyno iddi yn ystod Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru dros y Pasg eleni.

Nid yw'r gwaith yn gyfrinachol ac y mae Elinor eisoes wedi 'eistedd' ar gyfer y portread ac y mae'r creu yn mynd rhagddo. Apêl sydd yma ar i unryw rai ohonoch sy'n dymuno cefnogi'r cynllun i wneud hynny mewn modd sy'n gyfleus ichi. Mae tudalen GoFundMe wedi ei sefydlu gan Rhiannon Mathias o'r Ganolfan Gerdd ac fe allwch gyfrannu yn uniongyrchol trwy fynd i https://www.gofundme.com/f/penblwydd-hapus-happy-birthday-elinor-bennett, neu deipio 'GoFundMe Elinor Bennett' ar ffôn neu gyfrifiadur ac fe ddaw allwedd i'r dudalen i fyny yn syth. Neu, gallwch ysgrifennu ataf yn 6, Llys Garmon Sant, Gwaunadda, Caerdydd CF24 0JS a ffonio 07875 685693.

Mae gennym darged i godi £7,500 i gwblhau'r gwaith a mawr obeithiwn y bydd nifer ohonoch yn dymuno helpu yr ymgais. Bydd enw pob cyfrannwr yn cael ei nodi a gobeithiwn allu dangos y Portread maes o law mewn gwahanol ganolfannau fu'n allweddol yng ngyrfa Elinor, gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yma yng Nghaerdydd. Diolch ichi am ddarllen.

*Geraint Lewis*
geraintlewis2102@gmail.com

## Rhif: 231



**Ar draws**

7. Llawenydd hanner olaf ymadrodd (6)
8. Y llinell bell nad yw'n bod (6)
10. Trwy Sid daw dinistr (7)
11. Perthynas yn codi arswyd i'r pum cant (5)
12. Gallu'r wawr yn Lloegr (4)
13. A nawr am rhywbeth gwyllt (5)
17. Cerdd aderyn bach a'r dydd heb ddechrau (5)
18. Pedroediwr y ddawns (4)
22. Meddyg a gradd mewn argyfwng posibl (5)
23. Oriel aelod seneddol yn torri tir newydd (7)
24. 'Nerth y bywyd newydd yn yr ----- chwa
    Dorrodd fedd i weddill deilen ola'r ha'' (ED) (6)
25. Gwneud cytundeb wrth ddechrau codi ysgol mewn oes derfysglyd iawn (6)

**I lawr**

1. Tolach yn gadael dim ôl da (7)
2. Sŵn haidd yn symud yn ôl cyflwr y tywydd (7)
3. Mae hon yn dechrau gweld mewn ôd (5)
4. 'Rhag ----- -----, Nefol Dad,
   Taena d'adain dros ein gwlad' (HEL) (3,4)
5. Yn uchel iawn, yn drysu 12, mewn trafferth (5)
6. 'Adeiladwyd gan -----; -nid cerrig
   Ond cariad yw'r meini' (RWP) (5)
9. 'Er ----- ----- ----- a'i prynodd iddo'i hun,
   O! crea hi yn Gymru ar dy lun' (LV) (4,2,3)
14. Y cyfan am y canu (7)
15. Agor ceg mewn modd garw (7)
16. 'A'n ----- fwyn â gorfoleddus hoen
    Yn seinio fry haeddiannau'r addfwwyn Oen' (LV) (7)
19. 'Wrth -----, Iesu, ar dy groes
    A meddwl dyfnder d'angau loes' (WW) (5)
20. Mae Thomas G. Lewis yn dal y plisgyn (5)
21. Y gât i'r dyffryn (5)

**Enillydd Croesair Rhif 229**

**Siôn Lewis, Cydweli**

**Atebion Croesair Rhif 229**

**Ar Draws:** 7. Trybini 7. Cario 9. Trosi 10. Anwiredd 12. Baban a anwyd 14. Beibl i bawb o 18. Cylchfan 19. Dafad 21. Seren 22. Geidwad

**I Lawr:** 1. Eryri 2. O Bosra 3. Enw 4. Marian 5. Dilledyn 8. Anwadal 11. Llanilar 13. Gellygen 15. Bachgen 16. Brawd i 17. Calan 20. Sêr

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Cwis Dinesydd 50 2023

Tybed pa mor graff ydych chi wedi bod wrth ddarllen *Y Dinesydd* dros yr hanner canrif dwetha'. Dyma gwis bach i chi:

1. Enwch ddau gapel a chwalwyd yn ddiweddarach ac a enwyd gan Vaughan Hughes yn y rhifyn cyntaf.
2. Beth oedd yn anarferol parthed rhifynnau Ebrill - Mehefin 2020?
3. Pencampwyr y Croesair - enwch ddau berson sydd wedi ennill o leiaf unwaith y flwyddyn ers 2020.
4. Golygyddion misol. Pwy wnaeth olygu amlaf yn y cyfnod 2000 - 2009?
5. A beth am y cyfnod 2010 - 2023?
6. Llun pwy welwyd ar glawr rhifyn Medi 1977? Roedd e'n 26 oed ac fe olygodd un o rifynnau 2022!
7. Beth oedd thema ysgrif Gwilym Roberts Rhiwbeina yn y rhifyn cyntaf?
8. Pwy oedd cadeirydd ac is-gadeirydd Clwb Cinio merched Caerdydd yn y rhifyn cyntaf?
9. Pwy yw awdur y geiriau hyn yn rhifyn dathlu'r 25, rhifyn Ebrill / Mai 1998? 'Mae'n debyg mai dim ond fi o blith y criw bychan hwnnw yn Hydref 1972 a ddaeth ynghyd i nifer o gyfarfodydd i ddechrau paratoi papur Cymraeg i Gaerdydd sy'n dal i lynu wrth y papur fel casglu'r newyddion.'
10. Pwy oedd prif ddosbarthwr *Y Dinesydd* adeg dathliadau 25 oed yn 1998?

Fe gewch yr atebion yn rhifyn Ebrill 2023. Anfonwch eich atebion i'r cwis at eirianagwilym@gmail.com.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallwn fynd ati i ddathlu 50 mlynedd ers cyhoeddi rhifyn cyntaf *Y Dinesydd*, rhowch wybod. Edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau.

Ychydig yn hwyr efallai, ond Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi gyd. Gyda'r gwanwyn yn agosáu, rydyn ni'n dechrau troi ein sylw at ein gwyliau blynyddol – Gŵyl Fach y Fro yn y Barri (Sadwrn, 20 Mai) a Tafwyl (penwythnos 15 a 16 Gorffennaf). Byddwn hefyd yn lansio cyfres o deithiau cerdded misol dros fisoedd yr haf – beth am ddod gyda ni am dro yn yr awyr iach? Dyma flas i chi o'r gweithgareddau sydd ar y gweill dros y mis i ddod:

**Plant**
Bydd SparkLab yn cynnal Gweithdy Gwyddoniaeth arall, brynhawn Llun, 13 Mawrth. Dyma fydd y gweithdy olaf am y tro yn Ysgol Pencae, gyda'r sesiynau'n symud i Ysgol y Berllan Deg o fis Ebrill.
Ydych chi erioed wedi gweld bisgedi ar siâp llwy garu? Dyna fydd ar y fwydlen i'r cogyddion ifainc yng nghegin Cookstars ar brynhawn Sadwrn, 25 Mawrth. Bydd y gweithdy, a gynhelir yn Neuadd Eglwys St Peters, Y Tyllgoed, yn siŵr o fod yn boblogaidd felly cofiwch gofrestru o flaen llaw!

**Addysg Oedolion**
Wedi hanner tymor, bydd llond llaw o gyrsiau Addysg Oedolion newydd yn dechrau. Ydych chi ffansi rhoi tro ar wersi gwnïo, codi pwysau, crochenwaith neu gyfieithu ar y pryd? Ewch draw i'n gwefan i archebu'ch lle neu cysylltwch â Gwenno am sgwrs! (gwenno@mentercaerdydd.cymru)

**Mewn Tiwn**
Ymunwch â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina am baned a chyngerdd anffurfiol fore Llun ola'r mis (27 Mawrth) am 11.30. Yn perfformio y tro hwn bydd y delynores Bethan Semmens, sy'n rhan o gynllun Live Music Now Cymru ac mae'r cyfan yn rhad ac am ddim!

**Sgwrs y Mis**
Dr Marion Loeffler fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis, nos Iau, 30 Mawrth ar Zoom. 'Penodau Tywyll yn Hanes y Waun Ddyfal a Mynydd Bychan' yw'r testun dan sylw. Heddiw, mae'r ardaloedd hyn o Gaerdydd yn cwmpasu strydoedd prysur a thai, yn ogystal â pharciau sy'n cynnig gofod gwyrdd i fynd am dro, cael picnic neu chwarae pêl-droed. Ond yn y gorffennol, doedd bywyd yma ddim yn fêl i gyd.
Yn y sgwrs hon, cawn glywed am gyfnodau mwy cythryblus y ddwy ardal yma o'r brifddinas. Mae'r sesiwn yn rhad ac am ddim. Cofiwch gysylltu os nad ydych yn derbyn y ddolen Zoom yn fisol (rachel@mentercaerdydd.cymru)

**Siaradwyr Newydd**
Cofiwch am ein bore coffi misol ar Zoom – Gwener, 31 Mawrth am 10.30. Edrychwn ymlaen at fwy o sgwrsio difyr ar ddiwedd y mis! Byddwn hefyd yn lansio sesiynau Cerdded a Chlonc – bob bore Iau cynta'r mis dros yr haf - i siaradwyr Cymraeg o bob lefel. Cawn gyfle i grwydro'n hamddenol gyda'r pwyslais ar y siarad yn hytrach na'r cerdded! Parc Bute fydd lleoliad y cyfarfod cyntaf – ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.




**Cysylltu:**
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

## Gŵyl Gerdd Dant Caerdydd 2023

Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth i'r cyfarfod agored yn y Fictoria Parc nos Iau 16 Chwefror. Roedd yn wych gweld ffrindiau hen a newydd a chael cyfle i roi gwybod i bawb beth yw'r trefniadau.

Yn fyr, felly, cofiwch y dyddiad - dydd Sadwrn 11 Tachwedd. Mae gennym logo, fel y gwelwch uchod, diolch i Aron Evans, a'i dad, Anthony Evans fydd yn dylunio'r gwaith celf ar gyfer tlws yr Ŵyl.

Mae Cyngerdd y Cyhoeddi wedi'i drefnu o dan y teitl 'Corau Salem yn Cyhoeddi', yng nghwmni Côr Merched Canna, Bechgyn Bro Taf, Côr Hen Nodiant, Côrdydd a Merched Plastaf. Caiff ei gynnal yng Nghapel Salem, Treganna nos Fercher 22 Mawrth am 7.00. Y pris mynediad fydd £10 wrth y drws, ac am ddim i blant. Rydym yn edrych ymlaen at weld y capel yn llawn.

Rydym yn edrych ymlaen, hefyd, at lu o ddigwyddiadau eraill dros y misoedd nesaf. Rhannwyd degau o syniadau gwych yn y cyfarfod agored ar 16 Chwefror, a chadwch eich llygaid ar agor a moelwch eich clustiau fel nad ydych yn colli dim.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, neu os hoffech chi gynnig syniad, neu os hoffech gysylltu â'r Ŵyl mewn unrhyw ffordd, y cyfeiriad e-bost i gysylltu â ni yw GCDCaerdydd2023@gmail.com.